tafod elái

HYDREF 2022

Rhif 371

Pris £1

Llwyddiant yn y byd dawns Pencampwriaethau Prydain Fawr

Llongyfarchiadau mawr i Esmay Walters ac Eve Harris, Gilfach Goch, ar ennill Pencampwriaeth Prydain Fawr yng Nghystadleuaeth Pump Dawns Lladin dan 16 oed yn Bournemouth. Camp anhygoel a'r par mwyaf ifanc i ennill y categori hwn yn hanes y gystadleuaeth, Esmay yn 12 ac Eve yn 11 mlwydd oed. Dim ond am bedair wythnos y bu'r ddwy yn ymarfer gyda'i gilydd. Diolch i Abbie Neeson, Dance Crazy, am yr hyfforddiant dwys.

Cyrchfan Newydd am De mewn Steil

Ar eu taith fore Gwener daeth criw o ffrindiau ar draws hen Gastell y Van ger Caerffili a gweld fod yr adeilad, oedd wedi mynd yn adfeilion, nawr wedi cael bywyd newydd drwy fuddsoddiad a gwaith caled teulu o Lundain. Prynwyd Castell y Van gan Christine Tallon ac Adrian Cole yn 2017 ac ar ôl ei adnewyddu'n llwyr mae wedi agor fel gwesty Gwely a Brecwast a hefyd darperir Te Prynhawn.

Yn barod mae nifer o drigolion yr ardal a chymdeithasau wedi mynd draw i flasu'r Prydau Te arbennig ac yn ystod mis Awst aeth Yvonne Evans a chriw 'Heno' yno i olrhain hanes yr adeilad gyda Ben Jones ac i flasu'r danteithion melys oedd ar gael.

Adeiladwyd Y Fan yn y 1500'au gan Edward Lewis, Uchel Siryf ym Morgannwg, a bu'r teulu yn byw yno hyd 1616 pan symudodd i Gastell Sain Ffagan. Mae rhannau o'r adeilad wedi ei adeiladu o gerrig a gariwyd o adfeilion Castell Caerffili.

Côr Merched Newydd

Penderfynodd Gavin Ashcroft ddechrau côr newydd yn ardal Pontypridd, Tonteg, Pentre'r Eglwys ac Efail Isaf. Y bwriad yw ddechrau côr merched yn unig i ganu amrywiaeth o bethau - o'r clasuron i gerdd dant! Gyda'r bwriad o gystadlu pan ddaw'r Eisteddfod i RhCT yn 2024.

Cynhaliwyd yr ymarfer cyntaf ar Medi 12fed yn Gartholwg a daeth bron i 100 o aelodau newydd i'r côr gyda brwdfrydedd anhygoel i gychwyn ar y brosiect newydd sbon. Os hoffech wybodaeth neu ymuno cysylltwch â Gavin ar ei dudalen Facebook.

Ymddeol ond nid yn gorffwys!

Dymuniadau gorau i'r Parchedig Ganon Aled Edwards, Cilfynydd, sy'n ymddeol o'i swydd fel Prif Weithredwr Cytûn yn yr hydref. Bu'n ficer mewn sawl plwyf rhwng 1979 a 1999 cyn mynd yn Swyddog Cyswllt y Cynulliad i Cytûn ac yna'n Brif Weithredwr. Ers 2001 cynhaliodd Aled ddiddordeb cryf personol a chyhoeddus mewn materion sy'n ymwneud â cheiswyr lloches a ffoaduriaid, materion yn ymwneud â chyfiawnder hiliol a chydraddoldebau ynghyd â hawliau dynol. Mae Aled wedi ei benodi yn Gadeirydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'n siŵr y bydd yn parhau i wasanaethu ym mhulpudau'r ardal.

£10

Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.

Gofynnwn i chi fynd i wefan tafodelai.cymru a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.

Diolch i chi am eich cefnogaeth.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Tachwedd
i gyrraedd erbyn
28 Hydref 2022

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

Noson yng nghwmni'r awdur
Gruffudd Sol Owen

8yh Nos Iau, Hydref 20
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

Mynediad drwy Aelodaeth £15

Manylion oddi wrth:
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru

CYLCH CADWGAN

Nos Wener 28 Hydref
am 8yh
Noson yng nghwmni
Delwyn Siôn
yn Festri Bethlehem,
Gwaelod y Garth

Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru

Eisteddfod y Rhondda
@EisteddfodYRhondda
@EistRhondda
@eisteddfodyrhondda

EISTEDDFOD Y RHONDDA
19 TACHWEDD 2022

CAPEL HERMON, TREORCI. CF42 6PW

11:00 RHAGBROFION
14:00 PRIF-LWYFAN

RHESTR TESTUNAU A CHOFRESTRU:

www.eisteddfodyrhondda.cymru

DYDDIAD CAU 28 HYDREF

eisteddfodyrhondda@gmail.com

Pencampwr Saethu o Donteg

Llongyfarchiadau mowr Tim ar dy lwyddiant dros yr haf yn saethu colomennod clai! Ac yntau wedi cyrraedd oed yr addewid nid yw'r blynyddoedd yn mennu dim ar Tim Howells - y saethwr o Donteg! Gyda'r cystadlu rhyng-wladol yng Ngogledd Iwerddon eleni - Tim oedd capten y siwpyr vets, ac ef a ddaeth yn fuddugol - trwy sicrhau'r cwpan i'r capten gyda'r sgôr uchaf! Daeth tîm Prydain Fawr yn y trydydd safle yn y gystadleuaeth Ewropeaidd ryng-wladol - gan ennill medalau efydd! Tipyn o gamp! Dal ati Tim - mwy o waith polisio i Joy!

Cymrodorion Caerdydd

Sefydlwyd 1885

Rhaglen 2022/23
Bydd yr holl gyfarfodydd ar Zoom ac yn dechrau am 7.30
14 Hydref **PWY wyf i? Crefyddau ein cymdogion** Cyflwyniad gan Rheinallt Thomas, y Llywydd
Gellir ymuno â'r cyfarfod yn Salem, Treganna, neu ar Zoom
4 Tachwedd **Daeth y Llwyth yn Dylwyth: Llwyfannu Dramau Perthnasol sy'n adlewyrchu Cymru Gyfoes.**
Arwel Gruffydd
2 Rhagfyr **Merêd a Phyllis**
Gwenan Gibbard
3 Chwefror **John Ceiriog Hughes, Mosty Thomas a fi**
Canrif o ddarlledu o Gymru
Arwel Ellis Owen
7 Ebrill **Cennin a Chig Oen? Golwg ar fwyd Cymru**
Carwyn Graves
Cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi ym mis Mawrth
Tâl aelodaeth am y flwyddyn £10. I ymuno, neu am ddolen i gyfarfod unigol (£3) cysylltwr â Gwynn Matthews, m.g.derwendeg@gmail.com (029 20891802)

Cylch Meithrin newydd Cilfynydd a Phont Norton yn agor ei ddrysau!

Cynhaliodd Mudiad Meithrin agoriad swyddogol Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton dydd Mawrth, 6ed o Fedi gyda Phrif Weithredwr y Mudiad, Dr Gwenllian Lansdown Davies yno fel siaradwr gwadd. Bu i gymeriad hoffus y Mudiad, Dewin, wneud ymddangosiad hefyd.

Yn ogystal, roedd y gwleidyddion lleol Heledd Fychan AS, Vikki Howells AS, Prif Weithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, Osian Rowlands a swyddogoion o Gyngor Rhondda Cynon Taf yn bresennol yn y digwyddiad.

Mae'r Cylch Meithrin ar agor rhwng 9.30yb – 11.30yb o ddydd Llun hyd ddydd Mercher yn ystod tymor yr ysgol ar safle Canolfan Gymunedol Cilfynydd a Phont Norton ar gyrion Pontypridd. Bydd yn cynnig gofal drwy gyfrwng y Gymraeg i blant dros ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol.

Mae Cylch Ti a Fi eisoes mewn bodolaeth ers bron i flwyddyn ac yn cael ei gynnal bob bore Gwener yn ystod tymor yr ysgol ac yn mynd o nerth i nerth, gan dderbyn enwebiad yng Ngwobrau Mudiad Meithrin 2022 a gynhelir fis Hydref eleni.

Mae Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton yn rhan o gynllun 'Sefydlu a Symud' (SAS) Mudiad Meithrin. Dechreuodd y cynllun yn Ebrill 2018 a mae bellach ar ei 5ed blwyddyn. Mae 55 o Gylchoedd wedi eu datblygu yn ystod blynyddoedd 1 - 4 o'r cynllun, yn cynnwys Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton.

Louise Davies yw arweinydd newydd Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn ac Ysgol Gyfun Cwm Rhondda. Mae'n fam i ferch fach a fydd yn mynychu y Cylch ac mae ganddi dorreth o brofiad o weithio ym maes y blynyddoedd cynnar.

Dywedodd Louise: *"Dwi wrth fy modd yn gweithio efo plant ac yn falch o'r cyfle i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg gan ei bod yn hawdd iawn colli hyder yn yr iaith os nad ydym yn ei*

ddefnyddio pob dydd. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at fy swydd newydd fel Arweinydd Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton ac i gynnig profiadau gwych i blant yr ardal i gael gwneud ffrindiau newydd, chwarae, dysgu a chael hwyl drwy gyfrwng yr iaith."

Ychwanegodd Eurgain Haf Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith ac aelod o griw o rieni lleol a gafodd y syniad i sefydlu y Cylch newydd yn wreiddiol: "*Mae'n gyfnod hynod o gyffrous ac mae'r ymateb rydym wedi ei dderbyn gan y gymuned i'r fenter hyd yma wedi bod yn hynod o galonogol. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y daith ac yn edrych ymlaen at y cam nesaf o allu cynnig cyfleon a phrofiadau gwerthfawr i blant Cilfynydd a'r ardal a chyfrannu tuag at y nod o greu mwy o siaradwyr Cymraeg i'r dyfodol a sicrhau bod yr iaith yn parhau i ffynnu yn lleol."*

Mae'r cynllun Sefydlu a Symud yn deillio o ymateb Mudiad Meithrin i Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, sy'n cydnabod pwysigrwydd a dylanwad y Blynyddoedd Cynnar i greu siaradwyr Cymraeg, ac sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r strategaeth iaith yn nodi y bydd yn cefnogi'r gwaith o 'ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 40 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2021 er mwyn hwyluso dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny er mwyn cyrraedd 150 yn fwy o grwpiau meithrin dros y degawd nesaf.'

Mae bron i 2,000 o staff profiadol a chymwys yn gweithio mewn Cylchoedd Meithrin yng Nghymru.

Dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin: *"Ein huchelgais yw galluogi pob plentyn yng Nghymru i allu manteisio ar wasanaeth gofal plant ac addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cryn nifer o fylchau daearyddol ar hyd a lled Cymru felly mae gweledigaeth Cymraeg 2050 yn galluogi'r Mudiad, ar y cyd â chymunedau ar lawr gwlad, i weithio tuag at y nod o ddiwallu'r angen a chreu'r galw am ofal cyfrwng Cymraeg. Pob dymuniad da i Gylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton i'r dyfodol".*

Clwb Criced Pentyrch

Llongyfarchiadau mawr i Simon Atkins - un o hoelion wyth Clwb Criced Pentyrch.

Yn ddiweddar fe bleidleisiodd y 275 o glybiau criced yng Nghymru ar Arwr Tawel / Unsung Hero'r tymor ac mewn cyfarfod ar Erddi Sophia dyfarnwyd y tlws i Simon - "Brenin y Byrgyrs " ar Barc y Dwrlyn - nid yn unig am ei arbenigedd ar y barbeciw ond am ei holl waith di-flino yn helpu i gadw'r holl ardal o gwmpas y clwb criced a'r cae chwarae'n daclus a deniadol. Daeth hyn yn goron ar dymor arbennig i'r tim - ar ôl ennill dyrchafiad flwyddyn yn ôl i Adran Premier 2 Criced Cymru fe ddaethon o fewn trwch blewyn at ddyrchafiad eto'n syth i Premier 1 gan orffen yn ail yn y tabl i Ynystawe, a hefyd cyrraedd 16 ola Cystadleuaeth Pentrefi Gwledydd Prydain am y tro cynta yn eu hanes. Pob clod felly i Mr Criced Pentyrch - John Moore a'i griw ar eu llwyddiant.

Llywydd Newydd Cangen y WI

Pob dymuniad da i Joy Howells wrth iddi gychwyn fel Llywydd cangen Gwauncelyn o Sefydliad y Merched. Maent bellach yn eu pymthegfed blwyddyn ac yn y llun gwelir Joy yn plannu coeden i goffau Jiwbili Platinwm y ddiweddar Frenhines Elizabeth yr ail.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Dathlu pen-blwydd arbennig
Longyfarchiadau i John Edmunds, Penywaun a ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed ddechrau mis Medi. Mae John yn treulio cyfnod hirfaith yn Ysbyty Cwm Rhondda yn Llwynypia. Pob dymuniad da iti, John, a gobeithio y cawn dy groesawu adref i Benywaun yn fuan.

"Y Brodyr Emanuel"

Roedd yn braf gwylio "Heno" ar y teledu un noson ym mis Awst a gweld Ioan a Steffan, y brodyr talentog o'r Efail Isaf, meibion Rob a Bethan Emanuel. Mae Ioan, yr hynaf, wedi ennill pedwar cap i garfan rygbi Cymru o dan 18 oed, tra bod Steffan wedi ennill cap pêl-droed i fechgyn Ysgolion Cymru o dan 16 oed. Yn ystod gwyliau'r haf cafodd Steffan ei wahodd i ymuno â charfan Rygbi Cymru o dan 18 oed i gyd chwarae gyda'i frawd Ioan. Bu'r ddau'n ymarfer gyda'r tîm rygbi ym Mae Colwyn cyn symud ymlaen i Sterling yn yr Alban i chwarae gemau yn erbyn Yr Eidal a'r Alban a chael tipyn go lew o lwyddiant gan guro tîm Yr Eidal. Longyfarchiadau i chi eich dau.

Cricedwraig o fri
Llongyfarchiadau gwresog i Carys Gittins, Heol Tir Bach am gwblhau tymor o hyfforddi drwy'r gaeaf a chystadlu gydol yr haf gyda Sgwad Criced, Merched Dwyrain Cymru dan 13 oed. Mae Carys wedi teithio i chwarae gemau ym Millfield, Taunton, Salisbury a Mynwy ac wedi cael cryn lwyddiant, ac yn cymryd sawl wiced werthfawr gyda'i braich chwith fedrus. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ddilyn ei datblygiad dros y blynyddoedd nesaf. Da iawn, Carys. Mae dy deulu cyfan yn falch iawn ohonot ti. Dal ati.

Priodas
Bu tipyn o gyffro ym mhentref Myddfai ddydd Sadwrn, Awst 6ed ar achlysur priodas Mathew, mab Ioan ac Elizabeth Rees a Lowri, merch Eifion a Charlotte Evans, Llanymddyfri. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Myddfai a'r wledd briodas yng Nghaerlyn, Llangadog. Treuliodd y pâr ifanc eu mis mêl yn Ne'r Affrig a Mauritius. Mae Mathew yn gweithio yn Ysgol Sant Baruc, Y Barri a Lowri hithau'n athrawes yn Ysgol Ifor Bach, Senghennydd. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

Dymuniadau gorau
Yn anffodus bu'n rhaid i Shelagh Griffiths, Heol y ffynnon, roi'r gorau i fyw'n annibynnol oherwydd afiechyd. Mae bellach wedi ymgartrefu mewn Cartref Gofal yn yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd nid nepell o gartref ei merch. Ein cofion cynhesaf atat Shelagh.

Ffair y Pentref
Cynhaliwyd Ffair yn Neuadd y Pentref brynhawn Sadwrn, Medi'r 10fed. Roedd nifer dda o stondinau yn y Neuadd a thu fas yn y maes Parcio a'r Parc. Fe gefnogodd y pentrefwyr a'u ffrindiau'r ffair yn frwd a chodwyd y swm anrhydeddus o £2209 i gronfa'r Neuadd. Diolch i'r gwirfoddolwyr am drefnu'r achlysur a rhoi cyfle i'r pentrefwyr gymdeithasu a mwynhau paned a theisen.

Dymuniadau gorau
Dymunwn yn dda i'r myfyrwyr sydd yn dychwelyd i'r Coleg ar ôl mwynhau gwyliau'r haf gyda'u teuluoedd yn y pentref.

Y TABERNACL
Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan a llwyr i Audrey Lewis, Ton-teg a ddioddefodd godwm cas iawn yn ei chartref yn ddiweddar.

Yr un yw ein dymuniad i Roy Davies, Meisgyn yn dilyn damwain gas a gafodd yntau wrth gerdded ar fynydd Llantrisant. Bu criw o bobl ifanc o Bentre'r Eglwys yn hynod ofalus ohono tan iddo gael ei gludo i'r ysbyty i gael triniaeth lawfeddygol.

Da clywed eich bod eich dau wedi dod adre' o'r ysbyty ac yn gwella'n raddol.

Y Twmiaid
Gyda thymor yr ysgolion wedi ail ddechrau mae'r Twmiaid a'r Twmiaid Bach wedi ail-gydio yn eu gweithgareddau ar nos Sul. Pob hwyl i chi i gyd ac i Eleri Mai sydd yn rhoi cymaint o brofiadau amrywiol i bobl ifanc y Tabernacl.

Merched y Tabernacl
Roedd yn braf cael croesawu tair aelod newydd i'n plith for Gwener, Medi 9fed. Croeso i Eunice Davies ac i'r efeilliaid Eirian ac Eleri o Ynys Môn i'n cymdeithas. Bydd ein cyfarfod nesaf yn Y Ganolfan fore Gwener, Hydref 7fed am hanner awr wedi 10 y bore. Mae rhaglen ddiddorol yn cael ei threfnu ar gyfer y tymor. Croeso i aelodau hen a newydd.

Camp Jason Edwards
Ym mis Awst fe gerddodd Jason Edwards, Parc Nant Celyn i gopa Mynydd y Garth pob un diwrnod yn ystod y mis gan goroni'r orchest drwy wneud hynny dwywaith ar y diwrnod olaf. Gosododd her iddo'i hun o godi £1500 i gynorthwyo'r rhai anghenus yn y gymuned. Cafodd ei ysgogi, mae'n debyg gan y gwaith elusengar a brofodd wrth helpu aelodau'r Tabernacl i gludo nwyddau i'r rhai llai ffodus yn ein cymuned. Mae'r cerdded drosodd ond mae'r gronfa dal ar agor ac wedi hen groesi'r nod o £1500. Bydd aelodau gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol Y Tabernacl yn defnyddio'r arian a godwyd gan Jason i gynorthwyo'r anghenus yn yr ardal fel y bo'r galw. Diolch i Jason am ei gamp orchestol ac am dynnu sylw at y gwaith dyngarol a wneir gan aelodau'r Tabernacl.

Trefn yr oedfaon ar gyfer mis Hydref
Hydref 2il. Ann ac Emlyn Davies
Hydref 9fed. Y Parchedig Aled Edwards
Hydref 16eg. Gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni plant yr Ysgol Sul a'r Twmiaid.
Hydref 23ain. Glenys, Dafydd a Lowri Roberts
Hydref 30ain. Y Parchedig Gethin Rhys

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Dawn Walters

Gradd Meistr

Llongyfarchiadau mawr i Teilo Dyfed Evans ar raddio yn ddiweddar â gradd MA(Anrh.) dosbarth cyntaf mewn Ffrangen a Hanes Celf o Brifysgol St Andrews yn yr Alban, yn ogystal â gradd MA mewn Hanes Celf (Gydag Anrhydedd) o brifysgol y Courtald yn Llundain. Er i Teilo gael ei fagu ym Mhorthcawl, mae e'n ŵyr i Llinos a'r diweddar Bob Swain (Llantrisant), a'r diweddar Mrs Margaret Evans ac yn or-ŵyr i'r diweddar Mr a Mrs Evans, High Street, Gilfach Goch. Ymfalchiwn yn ei lwyddiannau a dymunwn bob lwc iddo at y dyfodol.

Cyngor Cymuned

Cynhaliwyd Ras y Goedwig a diwrnod o hwyl a sbri blynyddol y Cyngor Cymuned yn Evanstown Welfare Park ar Awst 4ydd. Roedd dros 100 o gystadleuwyr yn yr oedran 3-16. Cafodd pob un fedal am gystadlu ac roedd gwobrau arbennig yng nghategori oedrannau. Enillydd y ras oedd Keon Evans.

Dathlu ar y traeth yn Bournemouth

Llongyfarchiadau mawr i Esmay Walters ac Eve Harris ar ennill Pencampwriaeth Prydain Fawr yng Nghystadleuaeth 5 Dawns Lladin dan 16 oed. (Gweler tudalen 1).

Llongyfarchiadau i Verity Walters a'i phartner Teigan Bailey ar gyrraedd y rownd derfynol yr un gystadleuaeth dan 12 oed a'r ddwy ond yn 8 mlwydd oed. Mae Esmay yn ddisgybl yn Ysgol Llanhari a Verity yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail.

Gwledd ym Myd y Llyfr: Rhaglen y Cylch Llyfryddol, 2022–23

Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â chyfarfodydd un o gymdeithasau diwylliannol Cymraeg mwyaf llewyrchus y brifddinas, sef Cylch Llyfryddol Caerdydd.

Mae'r Cylch yn cyfarfod am 7.00pm ar nos Wener unwaith y mis dros fisoedd y gaeaf.

Mae pedwar o'n cyfarfodydd eleni (sef rhai Medi, Tachwedd, Chwefror a Mawrth) yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU. Mae'r ddau gyfarfod arall (sef rhai Hydref a Ionawr) yn cael eu cynnal trwy gyfrwng Zoom. I dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at yr Ysgrifennydd, E. Wyn James, 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Y tâl aelodaeth yw £10.

Gellir talu'r tâl aelodaeth yn un o'r cyfarfodydd, neu drwy ei anfon at y Trysorydd, Berwyn Prys Jones, Gelli Glyd, 8 Tyn-y-Cae Grove, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6DB (ffôn: 029-2062-5417; e-bost: berwynjones3@gmail.com), neu drwy ei dalu'n syth i gyfrif banc y Cylch Llyfryddol (Cod Didoli: 20-18-15; Cyfrif Rhif 10166758). Wrth dalu i gyfrif banc y Cylch, nodwch eich enw fel cyfeirnod er mwyn i'r Trysorydd wybod pwy sy'n talu.

Dyma raglen gweddill Gaeaf 2022–23:

Gwener, 28 Hydref 2022, am 7.00pm

Trwy gyfrwng Zoom: Sgwrs gan Dr Gareth Evans-Jones ar y testun '"Mae'r Beibl o'n tu": llenyddiaeth grefyddol, greadigol y Cymry yn America am gaethwasiaeth (1838–1868)'.

Gwener, 18 Tachwedd 2022, am 7.00pm

Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival: Sgwrs gan yr Athro Prys Morgan ar y testun 'Dau lew mewn un ffau: Henry Lewis a Saunders Lewis yn Adran Gymraeg Coleg Prifysgol Abertawe, 1922–1937'.

Gwener, 20 Ionawr 2023, am 7.00pm

Trwy gyfrwng Zoom: Holi'r Prif Lenor Sioned Erin Hughes, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022, am ei chyfrol arobryn *Rhyngom*.

Gwener, 17 Chwefror 2023, am 7.00pm

Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival: Sgwrs gan Dr Simon Brooks, awdur y gyfrol *Hanes Cymry*, ar y testun 'Lleiafrifoedd mewn llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg gan leiafrifoedd'.

Gwener, 17 Mawrth 2023, am 7.00pm

Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival: Sgwrs gan Dr Rebecca Thomas, awdur y nofel *Dan Gysgod y Frenhines* (2022), ar y testun 'Ysgrifennu rhwng y llinellau: heriau a chyfleon ffuglen hanesyddol ganoloesol'.

Croeso cynnes i bawb.

Cydnabyddwn yn ddiolchgar gymorth a chydweithrediad Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi gweinidog, darlithydd, cyhoeddwr ac awdur cofiant 'Cymro ddylanwadodd yn fawr ar wleidyddiaeth a diwylliant Cymru'.

Beth yw eich gwaith?
Wedi ymddeol ers blwyddyn ar ôl gweinidogaethu am 59 mlynedd gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bum yn weinidog Eglwys Gymraeg Bethel ger Penny Lane, Lerpwl, am 53 blynedd a chwe blynedd cyn hynny yng Nghwm Cynon ac Aberfan, Ers 60 mlynedd fel llafur cariad rwy wedi gofalu am wasg Cyhoeddiadau Modern Cymreig.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?
Darlithio i Adran Allanol Prifysgol Lerpwl a'r Brifysgol Agored am 30 mlynedd, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr am 40 mlynedd a cholegau pellach am 30 mlynedd. Golygydd papur bro *Yr Angor* am 45 mlynedd yn ddi-fwlch a Chadeirydd Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi (2000-2022). Dal i ddarlithio i gymdeithasau llenyddol a hanes, a darlithio a phregethu ar 'Zoom'.

O ble rydych chi'n dod?
O fferm Abercarfan hanner ffordd rhwng Tregaron a Llanddewi Brefi ar lan afon Carfan a Theifi (Gweler *Hanes Tregaron a'r Cyffiniau*, Y Lolfa, Talybont, 2022).

Ble rydych chi'n byw nawr?
Yn swbwrbia Allerton ger hen ysgol John Lennon (Gweler *Hunangofiant Di-ben-Draw*, Y Lolfa, Talybont, 2017).

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?
Do, yn yr ysgol gynradd yn Llanddewi ac yna yn Ysgol Uwchradd Tregaron roedd yn fendigedig. Felly Prifysgol Cymru, Aberystwyth a Chaerdydd, Coleg Diwinyddol y Presbyteriaid yn Aberystwyth, Prifysgol Lerpwl a Phrifysgol Salford.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau arnoch chi?
Y Parchedig John Ellis Williams, Aneurin Bevan, James Griffiths, Cledwyn Hughes, y Prifathro S I Enoch, y bardd Bobi Jones a thestun y cofiant Gwilym Prys-Davies.

Pam sgrifennu'r gyfrol?
Cyfeillgarwch di-dor o 1962 tan 2017 rhyngof i a Gwilym. Ni ein dau a sefydlodd Cyhoeddiadau Modern yn Abercynon yn 1963 a bum yn ei gyfrinachau ar hyd y blynyddoedd. Ysgrifennais y gyfrol er mwyn i'r genedl Gymreig sylweddoli cyfraniad gwerthfawr y gŵr swil oedd yn Gymro i'r carn.

Faint o waith oedd angen? Beth oedd y broses?
Cryn lawer o waith. Meistroli ei hunangofiant *Llafur y Blynyddoedd*, 1990, holi ei deulu, astudio ei bapurau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, darllen cyfrolau am ei gyfoeswyr.

Oes 'na wybodaeth newydd amdano?
Llawer iawn o wybodaeth am yr hyn gyflawnodd tu ôl i'r llenni, ei gymwynasgarwch di-ail ac fel y dibynnai cymaint o fudiadau Cymreig arno, er enghraifft ei gyfraniad i fudiad y Gwerinaethwyr, Plaid Cymru a'r Blaid Lafur. Ei berthynas agos â Dr Meredydd Evans, Syr Goronwy Daniel, a Gwynfor Evans a'i rhwystrodd rhag mynd i San Steffan yn 1966. Ei gymwynasgarwch i garedigion yr iaith, yn arbennig Cymdeithas yr Iaith.

Beth oedd y mwynhad mwya a'r heriau mwya?
Y mwynhad mwya oedd fy mod wedi llwyddo, yn fy nhyb i, i roi darlun teg ohono, gan gynnwys ei gariad at fro ei fagwraeth, Llanegryn, hanes dyddiau Ysgol Tywyn, Parch R S Thomas, Cyril Hughes, Cledwyn Hughes ac eraill iddo – a rhoi sylw i'r ffaith iddo guddio cymaint o'i gyfnod fel morwr yn yr Ail Ryfel Byd o lygaid pawb ohonon ni.

Pa fath o gymeriad oedd e?
Wel yn y Coleg yn Aberystwyth fe oedd wrth y llyw gyda'i huodledd anghyffredin, ei gydymdeimlad gyda'r Gwyddelod (a bu yn fawr ei gymorth ar Ogledd Iwerddon wedyn yn Nhŷ'r Arglwyddi).

Roedd yn barod i rwygo Plaid Cymru yn 1949 wrth ffurfio mudiad y Gwerinaethwyr. Yna roedd newid anhygoel pan drodd ei got, mabwysiadu'r Blaid Lafur a dod yn agos iawn at James Griffiths. Yn y diwedd, fe fwynhaodd Dŷ'r Arglwyddi, cyfarfod y Frenhines yn y palas a dod yn aelod o'r Sefydliad Cymreig.

Beth oedd ei gyfraniad?
Un aruthrol. Perswadio Jim Griffiths, Cledwyn Hughes, George Thomas a



John Morris, yr Ysgrifenyddion Gwladol, i baratoi ar gyfer Senedd yng Nghaerdydd. Fe oedd pensaer cynllunio datganoli.

Yna roedd yn rhan o waith gorchestol sicrhau heddwch yng Ngogledd Iwerddon, Cymreigio Bwrdd Iechyd i Gymru ac yn aelod o'r comisiwn i drafod sefydlu S4C.

Faint o ergyd oedd colli is-etholiad Caerfyrddin yn 1966?
Ergyd fawr yn bersonol. Bu yn ffodus o'i briod Llinos oedd mor gall a synhwyrol. Byddai wedi bod yn well Aelod Seneddol na Gwynfor ac roedd yn golled fawr i Gymru.

Faint o ergyd oedd canlyniad Refferendwm 1979?
Ergyd arall. Bu raid iddo gyfarwyddo John Morris yn hytrach na bod yn arweinydd yr ymgyrch. Rhoddwyd yr arweinyddiaeth i Elystan Morgan, un o'i edmygwyr pennaf.

Sut wnaeth Gweriniaethwr gyrraedd Tŷ'r Arglwyddi?
Gwrthododd fynd y tro cyntaf yn 1972 ar berswâd Syr Archibald Lush a Jennie Lee ond fe wrandawodd ddegawd yn ddiweddarach ar berswâd yr Arglwydd Cledwyn.

Yn y bôn oedd e'n sosialydd neu'n genedlaetholwr?
Perthynai i'r ffrwd bwysig o fewn y Blaid Lafur sef cenedlaetholwyr sosialaidd. Y mae gennym ni ugeiniau o enghreifftiau o R Silyn Roberts, David Thomas (Lleufer), Megan Lloyd George, James Griffiths, Tudor Watkins, Goronwy O Roberts, Caerwyn Roderick, i Eluned Morgan, Alun Davies a Huw Thomas, arweinydd Cyngor Caerdydd.

Parhad tudalen 7 >

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Colli Jim Morris
Ym mis Awst bu farw Jim Morris yn dawel yn ei gartref yn Nhroed y Garth yn 74 mlwydd oed. Roedd Jim yn adnabyddus i lawer yn y pentref oherwydd ei waith yn cynnal gerddi'r ardal. Cyn hynny bu'n swyddog ac yn Rheolwr ym Manc y NatWest gan weithio mewn deg o ganghennau yn cynnwys Caerfyrddin, Y Drenewydd, Llanelli a Merthyr. O'r herwydd symudodd y teulu i wahanol rannau o'r wlad ond penderfynwyd sefydlu ym Mhentyrch.

Yn enedigol o Penrherber ger Castell Newydd Emlyn ei enw bedydd oedd

John Gerald Morris ond cafodd yr enw Jim pan alwodd y deintydd teithiol "Gerald" yn "Sonny Jim" ac fe sticiodd yr enw.

Roedd Jim yn mwynhau garddio a chymdeithasu yn ei randir ac yn ôl ffrindiau, roedd e'n hala lot o amser yn 'cloncan' yn y sied. Roedd hefyd yn hoff iawn o gymdeithasu yn y Clwb Rygbi a'r Lewis Arms ac mae llun ohono a phlac i ddynodi ei sedd yn y Lewis.

Cefnogodd Clwb y Dwrlyn a bu yn Drysorydd am nifer o flynyddoedd. Roedd yn trefnu'r Yrfa Chwist yn flynyddol ac yn sicrhau bod 'ffowlyn ffres' o'r Gorllewin i'r enillydd. Yn ei het fowler roedd hefyd yn rhan o fintai'r Fari Lwyd. Bydd nifer yn cofio'r daith bws arbennig a drefnodd i'n tywys o amgylch ardal Crymych a'r Preselau.

Cydymdeimlwn â'i wraig Bronwen, a'r plant, Heledd, Lowri a Nia a'u teuluoedd. Y Parch Aled Gwyn lywiodd yr angladd yn Amlosgfa Thornhill, ddydd Mercher, Medi 7fed. (P.W.)

Criced
Llongyfarchiadau i Ieuan Griffiths, Tŷ Gwyn sy'n datblygu i fod yn chwaraewr criced addawol. Derbyniodd wobr gan glwb Pentyrch yn ddiweddar am ei gyfraniad arbennig fel maeswr yn ystod y tymor.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Margaret Hughes, Maes y Sarn ar gyrraedd pen-blwydd arbennig iawn. Mae'n siŵr iddi fwynhau'r dathlu gyda'r teulu a hefyd gydag aelodau Eglwys Dewi Sant.

Penblwydd Hapus
Mae'n gyfnod hir o ddathlu i Margaret ac Ifan Roberts. Ym mis Awst roeddem yn llongyfarch Margaret a nawr tro Ifan yw hi wrth iddo yntau gyrraedd oed arbennig hefyd. Mwynhewch!

Sioe Arddwriaethol
Cafodd sioe arddwriaethol lwyddiannus ei chynnal ddechrau mis Medi ar ôl saib o ddwy flynedd. Roedd Shan Pickard a Margaret Curran ymhlith yr enillwyr yn yr Adran Grefft a Choginio a llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ar eu llwyddiant.

Gwaith brodio cywrain Shan Pickard

Genedigaeth
Llongyfarchiadau gwresog i Morfydd a Gareth Huws ar enedigaeth wyres fach ar Fedi'r 7fed yn pwyso 8pwys 12.5owns. Mae Elin a Rhodri wrth eu boddau a Myfi Lisabeth wedi cael croeso mawr. Danfonwn ein dymuniadau gorau at y teulu bach ym Mhontcanna.

O Dan yr Wyneb (Parhad)

Pe bai'n fyw, pa gwestiwnau hoffech chi ofyn iddo fe?
Yn gyntaf, cael gwybod mwy am ei gefndir cynnar oherwydd ganwyd ef yng Nghroesoswallt. Yn ail, pam na ymdrechodd yn fwy i sicrhau bod rhai o'r enwau a gynigiwyd iddo yn aelodau posibl Tŷ'r Arglwyddi gan ei fod yn cwyno nad oedd digon o Gymry o'r Blaid Lafur ymhlith yr arglwyddi.

Pa mor agos oeddech chi fel ffrindiau?
Agos iawn fel dau frawd gan ein bod ni'n wleidyddol yn coleddu cymaint yn gyffredin.

Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?
Ewch ati'n ddiymdroi gan fod cymaint o waith i'w gyflawni fel bod gennym hanes gweddol gyflawn i 'werin y graith'. Daliwn i ddisgwyl hanes y pleidiau gwleidyddol, y clybiau pêl-droed, bywgraffiadau cymaint o'r cewri.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd
Pysgodyn, sglodion, pys gwyrdd a darn o lemwn.

Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi erioed?
Yn iaith pobl Tregaron 'daw bola yn gefen,' hynny yw bwytewch yn iach a digon ohono.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?
Gwylio Lerpwl yn chwarae pêl-droed, cefnogi Cymru ym myd rygbi a ffwtbol, a chael awr mewn siop lyfrau ail law bob ryw fis. Gwylio *Newyddion* ar S4C bob nos.

Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781913996130&tsid=3

Cymro i'r Carn, Cofiant Gwilym Prys -Davies, Gwasg y Bwthyn, £12.95

Clwb y Dwrlyn

Dechrau mis Mehefin aeth criw ardal Pentyrch a Chreigiau ar daith i Drefynwy ac Abaty Tintern dan arweiniad Frank Olding. Roedd yn ddiwrnod diddorol iawn gyda Frank yn rhoi o'i wybodaeth a phrofiad helaeth o dwrio i hanes Gwent.

Yna ym mis Gorffennaf aeth criw i aros yng Nglyn Ceiriog am benwythnos a chael cyfle i deithio ar Gamlas Llangollen ac ymweld ag amgueddfa hynod ddiddorol Glyn Ceiriog. Guto Roberts bu'n trefnu'r daith ac roedd yn uchafbwynt i'w gyfnod fel Cadeirydd Clwb y Dwrlyn. Bu rhaid gohirio'r daith am ddwy flynyedd oherwydd cyfyngiadau Covid ond roedd yn werth aros i cael cyfle i weld ardal odidog.

Diolch i Guto am lywio'r clwb drwy gyfnod y clo a zoom a chroeso i John a Marian Evans sydd wedi derbyn y cyfrifoldeb o fod yn gyd-Gadeiryddion.

Mae rhaglen 2022-2023 wedi ei gyhoeddi ac mae croeso i aelodau newydd ymuno. Cysylltwch â clwbydwrlyn@pentyrch.cymru neu dewch draw i'n cyfarfod nesaf ar Hydref 20fed am 8yh ynn Nghlwb Rygbi Pentyrch - noson yng nghwmni Gruffudd Sol Owen.



THEATR BARA CAWS yn cyflwyno 'UN NOS OLA LEUAD'

Ers iddi gael ei chyhoeddi yn 1961 mae Un Nos Ola Leuad wedi cydio yn nychymyg cenedlaethau o ddarllenwyr Cymraeg ac mae'n nofel sy'n parhau i ennyn ymateb ysgubol yn rheolaidd. Bu i Bara Caws deithio'r addasiad llwyfan hwn gyntaf yn 2011 ac yn falch iawn o gael gwneud hynny eto eleni. Betsan Llwyd sy'n gyfrifol am y sgript sy'n seiliedig ar waith gwreiddiol gan Maureen Rhys a John Ogwen, ac mae'r fersiwn hon wedi ei chynnwys ar gwricwlwm lefel 'A' Drama CBAC ar hyn o bryd.

Gwaith ensemble fydd y cyflwyniad gyda'r cast yn cynnwys Owen Alun, Owen Arwyn, Celyn Cartwright, Siôn Emyr, Cedron Siôn a Manon Wilkinson.

Nos Iau a Nos Wener, 3 a 4 Tachwedd, 7:30, Neuadd Llonofer, Caerdydd
Nos Sadwrn, 5 Tachwedd, 7:30, Glan yr Afon, Casnewydd.

PONTYPRIDD

Colofnydd y mis – Siân Ebbsworth

Dathliadau:
Ar Hydref 28ain, fe fydd Graham a Delyth Davies, Oaklands, Cilfynydd, yn dathlu eu priodas aur. Mwynhewch yr achlysur deulu oll! Dyma lun bendigedig ohonynt ar y dydd yn 1972.

Llongyfarchiadau mawr i Dylan a Lauren a briododd ar ddydd Sadwrn, Awst 6ed yn Gorcott Hall, ger Warwick. Fel y gwelwch, cafodd Shamus y milgi'r fraint o fod yng ngofal y modrwyon! Mae Dylan yn fab i Siân a Mike Ebbsworth, Graigwen a Lauren yn ferch i Steve a Gaynor Slater, Cilfynydd. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Warwick bellach; Dylan yn danysgrifwr yswiriant i gwmni NFU Mutual, a Lauren yn uwch-gynllunydd digidol i Jaguar-Landrover. Mae'r ddau yn edrych ymlaen at dreulio eu Mis Mêl yn Ngwlad Tai.

Colli Myfanwy
Ddiwedd Awst, bu farw Myfanwy Lloyd, Y Parade, Pontypridd. Yn wreiddiol o Myddfai, symudodd hi a'i gŵr, Gareth o Aberteifi 13 o flynyddoedd yn ôl. Bu'r ddau yn athrawon yn Sir Benfro a Cheredigion cyn ymddeol. Roedd yn aelod ffyddlon o Gangen Pontypridd o Ferched y Wawr. Brwydrodd yn ddewr â'i salwch am dros pum mlynedd. Mae ein cydymdeimlad yn fawr gyda Gareth a'r merched, Meleri a'i theulu ym Mryste a Siân a'i theulu ym Mhontypridd.

Llond y tŷ yn Vale Gardens!
Mae Chris a Karyl Mann yn falch iawn i groesawu eu merch Nerys, ei gŵr Osian (yn wreiddiol o Gaernarfon), a'u mab Deio yn ôl i'r ardal wedi cyfnod yn Dubai. Mae Nerys eisoes wedi dechrau ei swydd fel athrawes yn Ysgol Pont-Siôn-Norton, ac Osian yn Adran Gwaith a Phensiynau Caerffili. Mae Deio wrth ei fodd yng nghwmni ei gefnder bach, Macsen, mab Lewis a Siân!

Hwyl fawr
Pob dymuniad da i Dani Thomas sy'n symud i Aberystwyth ar ôl blynyddoedd yn byw yng Ngraigwen.

Merched y Wawr
Alun Wyn Bevan oedd ein gwestai ym mis Medi. Cawsom ddechreuad arbennig i'r tymor newydd yn ei gwmni difyr. Diolch o galon iddo.

Edrychwn ymlaen i groesawu Eurgain Haf Thomas, Achub y Plant, a fydd yn siarad â ni am waith amhrisiadwy ac hanfodol bwysig yr elusen. Byddwn yn cyfarfod yng Nghlwb y Bont ar nos Iau 13eg o Hydref am 7:30yh Croeso i aelodau newydd.

Clwb Llyfrau
Fe fydd y grŵp yn cyfarfod yn Llyfrgell Pontypridd ar fore Mercher, Hydref 19eg am 10:30 y.b. Croeso i aelodau newydd.

Gareth a Delyth Blainey fydd yng ngofal y golofn fis Tachwedd. Cysylltwch â nhw gyda'ch newyddion.

Diweddariad gan Heledd Fychan,
Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

Dydd Gwener, 23ain o Fedi, cyhoeddodd Canghellor Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyllideb fer - teitl camarweiniol i gyllideb mor bellgyrhaeddol. Gyda llu o doriadau i drethi'r bobl fwyaf cyfoethog a breintiedig yn ein cymdeithas, dangoswyd yn glir nad yw'r Prif Weinidog newydd na'i chabinet yn poeni am y mwyafrif ohonom gan gynnwys y mwyaf bregus. Yn wir, fel rhan o'r pecyn roedd hefyd cyfeiriad at doriadau i Gredyd Cynhwysol - budd-dal sydd eisoes yn rhy isel i'r mwyafrif fedru talu am bethau cyfan gwbl elfennol ac angenrheidiol megis bwyd a chynhesu eu tai.

Rwy'n siŵr bod nifer ohonoch chi'n poeni beth fydd effaith yr holl gynnydd mewn costau ar eich sefyllfa chi, a hoffwn eich annog i ofyn am gymorth os yw pethau'n anodd ichi neu unrhyw un rydych yn ei adnabod. Rydym ni gyd fel Aelodau o'r Senedd yn medru eich cyfeirio am gymorth perthnasol gan lu o sefydliadau lleol, ac mae pob cyfathrebiad gyda ni'n gyfrinachol. Mae fy nhîm yn ein swyddfa ym Mhontypridd, sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Bro Morgannwg, wastad yn barod i wrando a rhoddi Cyngor felly mae croeso ichi ddod i gysylltiad.

Os ydych chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli i sefydliad sydd yn darparu cymorth, hoffwn hefyd eich gwahodd i ddigwyddiad rhwydweithio i rannu eich profiadau o sut mae'r argyfwng yn taro'r rheiny rydych yn eu cefnogi, a pha effaith y mae hyn yn ei chael ar allu eich sefydliadau i ddarparu cymorth iddynt. Dyma'r trydydd digwyddiad o'r fath yr wyf i a fy nhîm wedi trefnu eleni, ac mae croeso cynnes i fynychwyr sydd wedi bod o'r blaen yn ogystal â rhai newydd.

Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle i siarad yn uniongyrchol am effaith yr argyfyngau yr ydych yn eu gweld yn eich cymunedau, sut yr ydych yn ymateb, eich cynlluniau, a pha gymorth y gallai fod ei angen arnoch. Os hoffech wneud cyflwyniad neu gyflwyno tystiolaeth, rhowch wybod i ni, hyd yn oed os nad ydych yn gallu bod yn bresennol.

Mae'r digwyddiad ar y 27ain o Hydref, rhwng 10am a 2pm, yn Strategaeth Bryncynon, Ynysboeth. Archebwch le drwy'r manylion isod.

Er bod nifer o'r ysgogiadau allweddol yn parhau i fod o dan reolaeth San Steffan, mae llawer y gall Cymru ei wneud yn annibynnol i ymateb, megis capio codiadau rhent tai cymdeithasol, cyflwyno targedau ar gyfer dileu tlodi plant, a dechrau trafodaethau gydag awdurdodau lleol ar ddiddymu dyled i'r rheini ag ôl-ddyledion treth cyngor.

Ond hoffem glywed gennych ynglŷn â sut y gallwn gydweithio i gyfyngu ar effaith yr argyfwng costau byw a sut y gall sefydliadau cymunedol a chyrff sector cyhoeddus gydweithio'n lleol i helpu i fynd i'r afael â hyn.

I gysylltu â mi e-bostiwch Heledd.Fychan@Senedd.Cymru neu ffonio 01443 853214

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Cantorion Creigiau
Mae Cantorion Creigiau, yn falch i fod nôl yn ymarfer eto eleni. Mae'n braf ein bod yn gallu canu gyda'n gilydd a chymdeithasu eto. Hyfryd yw croesawu aelodau newydd sy'n mwynhau canu gyda ni.

Yn dilyn egwyl yr haf mae'r ymarferion wedi ail-ddechrau ar nos Sul am 7.30yh yng Nghlwb Golff Creigiau (yr ystafell lan llofft) gyda'r opsiwn o gymdeithasu yn y bar lawr llawr wedyn.

Edrychwn ymlaen at groesawu cyfeilydd newydd i weithio gyda'n Harweinydd Cerdd ac i arwain ein côr ymlaen at y sesiwn newydd.

Croesewir cyn-aelodau ac aelodau newydd i ymuno â ni unrhyw bryd, dim ond i chi droi lan erbyn 7.30yh - fe gewch groeso cynnes. Canu yw'r peth pwysicaf! Does dim rhaid i chi allu darllen cerddoriaeth; mae'r ymarferion yn addas i helpu pawb. Mae canu'n gwella eich iechyd corfforol a meddyliol a gall fod yn llawn hwyl! Dewch ymlaen a rhowch dro arni!

Roedd Cantorion Creigiau yn methu dathlu eu pen-blwydd 50 mlynedd yn ystod Rhagfyr 2020 - felly mae Neuadd Creigiau wedi ei fwcio nos Sul 18fed Rhagfyr ar gyfer ein cyngerdd carolau blynyddol am 6.30 p.m.

Dyddiad i'w nodi - gwelwn ni chi yno!

Clwb Gwawr Creigiau
Ar ddechrau blwyddyn arall hoffwn wahodd aelodau newydd i ymuno gyda ni i gymdeithasu yn fisol. Croeso cynnes i ddysgwyr.

Cawsom noson hwyliog yn nhafarn y Creigiau gyda Katy Hulley tu ôl y bar yn siarad Cymraeg. Mae ei chwaer Abigail yno fel arfer hefyd - y ddwy yn gyn-ddisgyblion Plasmawr.

Byddwn yn cyfarfod nesaf yn noson Bwncath yn Gartholwg ar Fedi 30. Archebwch docyn a dewch i'r noson. Coffi a wac yn Sain Ffagan yw y bwriad ar Hydref 22 ac yna noson Nadoligaidd diwedd Tachwedd / Rhagfyr

Dewch i ymuno gyda ni. Croeso i bawb.

Cysylltwch gyda telerij@yahoo.com

Disgyblion disglair!
Llongyfarchiadau i bawb fu wrthi'n llafurio dros y ddwy flynedd ddiwetha ac a sicrhaodd raddau sy'n caniatau iddynt fwrw mlân â'u hastudiaethau neu eu dewis lwybrau gwaith. Byddwn yn dilyn eich gyrfaoedd gyda chryn ddiddordeb. Gyda chymorth H.R. dyma sut y gwelwn ni hi o safbwynt disgyblion Creigiau - a phob dymuniad da i chi un ac oll ar eich llwybrau newydd!

Hanna Rowlands	Caerwysg
Wiliam Thomas Jones	Reading
Hari Samuel	Caergrawnt
Elan Davies	Caerdydd
Katy Knoyle	Imperial/ Llundain
Mari Boundy	Durham
Rhys Evans	Birmingham
Elanna Bush	Lerpwl

Ymddiheuriadau am fethu unrhyw un - dewch nôl ataf gyda'ch manylion!

Priodas Steffan a Gemma
Ar Sadwrn crasboeth yn yr haf - priodwyd Steffan Thomas a Gemma Ward. Llongyfarchiadau mawr eich dau a diolch am rannu llun o'r diwrnod hapus. Ar y trydydd ar ddeg o Awst priodwyd y ddau yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ac wedi'r seremoni bu'r dathlu'n parhau yn nhafarn Gwaelod y Garth. Pob hapusrwydd eich dau - yn sicr ddigon roedd 'na ddigon o haul ar y fodrwy! Pob bendith!

Mentro 'da'r Fenter!
Pob dymuniad da i'r aml-dalentog Iestyn Jones, wrth iddo gychwyn ar ei swydd gyda Menter Rhondda Cynon Taf. Mae'n siwr bydd yna ddigwyddiadau cyffrous iawn i ddod!

Gwellhad llwyr a buan . . .
. . . i **Sue Davies!** Deallwn i Sue gael ei tharo'n bur wael tra ar ymweliad - gyda Roy - â theulu Menna yng Nghaer ddechrau'r haf. Ond mae mor braf adrodd bod Sue yn gwella'n dda ac wedi derbyn pob gofal gan feddygon y gogledd ddwyrain! Cofion atat!

O fryniau Caersalem caf weled… Tregaron…

Cefais fy ngeni yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Y Fflint 1969. Rwy'n cyfrif hynny'n fraint aruthrol. Mi amharodd rhyw fymryn ar fwynhad Mam o'r brifwyl ond roedd hi'n rhannol ar fai ac mae hi wedi maddau imi, rwy'n credu.

Fel arfer mae dathlu fy mhen-blwydd ar faes yr eisteddfod genedlaethol yn bleser pur; teisen, anrhegion, cwmni teulu a chyfeillion, a threulio rhan fwya'r dydd yn cysgu'n braf yng nghefn y Babell Lên. Ond eleni mi ddigwyddodd rhywbeth ofnadwy imi. Sef marw.

Mae angen esbonio hyn.

Druan ohoni, roedd Angharad Puw Davies yn yr un flwyddyn ysgol a fi, ac felly'n gorfod bod yn yr un dosbarth a fi am lawer iawn gormod o amser. Er gwaetha'r felltith yna mi wnaeth rhywbeth ohoni ac erbyn heddiw mae'r Athro Angharad Puw Ruddy yn rhywbeth pwysig iawn ym mhrifysgol Abertawe. Hi wahoddodd Dr Emyr Wyn Benbow o brifysgol Manceinion i draddodi darlith Coleg Brenhinol y Patholegwyr ar y testun "Patholeg – y gwyddor tu ôl i'r gwellhad". Ac mi gafodd hi syniad gwreiddiol iawn er mwyn dennu torf. Syniad gwreiddiol iawn, a gwirion iawn. Mi benderfynodd yr Athro Ruddy y byddai'n beth da i Dr Benbow gynnal awtopsi. Ac felly roedd angen corff.

Mi gymerais yn erbyn Dr Benbow ar unwaith. Roedd ei *bedside manner* yn warthus; mi anwybyddodd fi'n llwyr drwy'r holl beth ar wahân i lawer gormod o sylwadau digon dirmygus amdanaf, gan wybod yn iawn nad oeddwn mewn sefyllfa i ymateb.

Mae Dr Benbow, wrth gwrs, yn ddyn aruthrol o alluog. Ond mae Dr Benbow hefyd yn ddyn byr, ac roedd o'n chwifio ei declynnau erchyll yn llawer rhy agos a'n llawer rhy frwdfrydig o fewn modfeddi at fy nghorpws diamddiffyn. Mae ei offer yn gyfuniad uffernol o'r fath o bethau mae cigydd yn eu defnyddio i ddarnio buwch, a'r fath o bethau mae fy mrodyr yn eu defnyddio i ddarnio tractor.

Mi fu'n awr ddifyr a dadlennol i bawb ar wahân i fi. Mi fethodd Dr Benbow â darganfod beth wnaeth o'i le amdanaf ac mi fyddaf yn gorfod ysgwyddo baich ofnadwy'r anwybodaeth honno hyd nes imi groesi Iorddonen ddofn. Am yr ail dro.

Huw Lasarus Roberts.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Haf o Hwyl

Wrth i Gymru ddechrau gwella ar ôl effaith gymdeithasol, emosiynol a chorfforol y pandemig, mae lles plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Nod y cynllun Haf o Hwyl yw cefnogi llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol ein plant a phobl ifanc 0-25 oed.

Gyda chymorth y cynllun, mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf wedi gallu cynnig rhaglen lawn o weithgareddau Cymraeg am ddim ar draws y sir dros yr Haf a byddant yn parhau tan ddiwedd mis Medi.

Cynhaliwyd sesiynau gwych gyda Ffa la la, Yoga Pili Pala, Martyn Geraint, Babis Bach Babies, Oriel Odl a Siôn Tomos Owen ac roedd yr ymateb yn wych. Braf iawn oedd gallu cynnig llu o weithgareddau Cymraeg am ddim dros fisoedd yr Haf a diolchwn i'r lleoliadau am y croeso cynnes ac i bawb ddaeth i ymuno yn yr hwyl.

Prosiect Medrau

Ar ôl prysurdeb Haf o Hwyl, mae Prosiect Medrau wedi ail-gydio. Cawsom ni noson arbennig yn yr Hen Lyfrgell ar yr 2il o Fedi - noson o ganu yn y caffi! Cafodd aelodau'r grŵp gitâr sydd wedi bod yn cwrdd yn anffurfiol yn yr Hen Lyfrgell Porth fel rhan o'r prosiect y cyfle i arwain ar y canu. Roedd y lle yn llawn a phawb wrth ei bodd yn canu caneuon Cymraeg nerth eu pennau! Diolch i Teleri a Glyn am y

croeso ac i bawb ddaeth i ganu a joio gyda ni.

Cynhaliwyd taith tywys o dref Llantrisant hefyd ar y 10fed o Fedi. Yr hanesydd lleol, Dean Powell, oedd yn arwain y daith gan rannu ei wybodaeth helaeth am yr ardal gyda ni.

Cawsom ni glywed am hanes y castell a'r eglwys a Dr William Price cyn dychwelyd i'r Ganolfan Treftadaeth ac Ymwelwyr yn hen Neuadd y Dref. Mae'r adeilad rhestredig Gradd II wedi sefyll ochr yn ochr ag adfeilion y Castell Normanaidd ers saith canrif, ac yn ddiweddar mae wedi elwa o waith adfer gwerth £1.4miliwn sydd wedi rhoi bywyd newydd iddi. Mae'r Ystafell Lys yn gartref i gasgliad o arteffactau a thrysorau, gan gynnwys prysgyll arian prin o'r 17eg ganrif sydd wedi goroesi'r Rhyfel Cartref yn Lloegr ac sy'n hŷn na'r ystafell lys yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae yna hefyd arddangosfeydd yn ymwneud â'r hynod Dr William Price, straeon am frwydrau gwaedlyd â Brenhinoedd Lloegr a gafodd eu dal. Os cewch chi'r cyfle i ymweld â'r ganolfan, mae'n werth gwneud!

Mae gyda ni sesiynau blasu a

gweithdai ar y gweill dros y misoedd nesaf gan gynnwys gweithdai printio gyda Susan Joshi, artist o Bontypridd. Mae Susan, sydd eisoes yn cynnal gweithdai yn yr ardal, wedi dysgu Cymraeg ac yn awyddus i gymryd y cam o ddechrau defnyddio ei Chymraeg yn ei gweithdai. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â Susan a chefnogi hi i ddatblygu ei sgiliau cyflwyno yn Gymraeg a rhoi'r cyfle i drigolion ddysgu sgil newydd.

Os oes diddordeb gyda chi ymuno, cysylltwch â **gweithgareddau@menteriaith.cymru**

29.10.22 – Gweithdy Sgrin-Brintio – Canolfan Garth Olwg – 10:00-12:30

Dewch i ddylunio a chreu eich bag tote Cymraeg eich hun! Byddwch chi'n torri geiriau Cymraeg papur i greu eich stensil eich hun, a fydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i drosglwyddo i fagiau tote. Llefydd cyfyngedig. Rhaid archebu o flaen llaw.

26.11.22 – Gweithdy Printio Leino – Canolfan Garth Olwg – 10:00-12:30

Dewch i ddysgu am brintio leino! Dysgwch sut i dorri geiriau Cymraeg mewn leino, a chewch gyfle i argraffu eich cardiau cyfarch eich hun. Llefydd cyfyngedig. Rhaid archebu o flaen llaw.

Clybiau Carco

Mae'r clybiau carco wedi ail-ddechrau ar ôl yr Haf. Mae'r plant wedi mwynhau ymweliadau gan Dinomania a Citrus Arts yn cynnal gweithdai sgiliau syrcas dros y misoedd diwethaf! Os hoffech chi gofrestru eich plant ar gyfer y flwyddyn academaidd hon ewch i - https://www.menteriaith.cymru/cofrestru/

Clwb Carco Llanhari 3-12 oed dydd Llun - dydd Gwener 15:10 - 17:10. £8 am sesiwn 2 awr a archebwyd o flaen llaw.
Clwb Carco Pont Siôn Norton dydd Llun - dydd Iau 15:30 - 17:30. £8 am sesiwn 2 awr a archebwyd o flaen llaw.
Clwb Carco Garth Olwg dydd Llun - dydd Gwener 15:20 - 17:50. £8.50 am sesiwn 2.5 awr a archebwyd o flaen llaw.

Am fwy o fanylion -
carco@menteriaith.cymru
neu 01443 407570.

Cadwch lygaid allan am wefan newydd y Fenter dros y misoedd nesaf a chofiwch ddilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf!

Dilynwch ni!
Facebook: @MenterRhCT
Twitter: @MenterIaithRhCT
Instagram: @menteriaithrhct

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU 2024 RHONDDA CYNON TAF

O fewn y misoedd nesaf sefydlir gwahanol bwyllgorau i restru cystadlaethau mewn gwahanol feysydd ar gyfer Yr Eisteddfod uchod. Fel rheol, mae perffaith ryddid i unrhyw berson ymuno â phwyllgor os yw'r maes yn apelio.

Wrth chwilota mewn llyfrau ac erthyglau, mae'n syndod mor bwysig y bu eisteddfodau ym mywyd diwylliannol Cymoedd Rhondda, Cynon a Thaf. Un ffynhonnell arbennig o werthfawr yw'r gyfrol Crwydro Blaenau Morgannwg gan Gomer Roberts (1962) sy'n cyfeirio at yr hen Sir Forgannwg gan gynnwys Glyn Nedd, Tir Iarll a Chaerffili yn ogystal â'r ardaloedd uchod bryd hynny.

O ganlyniad i amodau'r Rhyfel penderfynwyd cynnal Eisteddfod gyntaf yr Heddwch ar raddfa llai uchelgeisiol yn Rhosllannerchrugog yn 1945. Ac mae gen i gof plentyn naw oed yn mynd law yn llaw â fy nhad i babell fawr wen ar faes chwarae'r Ponciau ger ei hen gartref. Ac yno cofiaf glywed y cyhoeddi mai yn Aberpennar y cynhelid Eisteddfod y De y flwyddyn ganlynol a hynny'n ddigon cyfleus i'm cartref ym Mhentre'r Eglwys.

Ar ôl tlodi creadigol blynyddoedd llwm y Rhyfel, mae'n ddiddorol darllen cyfrol drwchus Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Aberpennar 1946. Mae'n amlwg i'r pwyllgor annog penrhyddid i'r awen ac i'r dychymyg hedfan gyda'r holl amrywiaeth o ran testunau barddonol (caeth a rhydd - 11 cystadeuaeth), rhyddiaith (creadigol a beirniadol - 13), drama (ysgrifennu ac actio -13), cerddoriaeth (cyfansoddi - 5).

Ond er mwyn ein hatgoffa nad brwydro ar draws Ewrop a'r Dwyrain Pell oedd yr unig orchest a sicrhaodd yr heddwch, testun yr awdl oedd "Awdl Foliant i'r Amaethwr" yn Aberpennar ac "Awdl Foliant i'r Glowr" yng Nghaerffili (1948) - dwy alwedigaeth allweddol i gynnal bywyd pob dydd nôl gartre. Rhaid canmol yr Eisteddfod am osod testunau i godi ysbryd y genedl. Ac ni chawsom ein siomi o bell ffordd.

Fodd bynnag, yr hyn sydd werth ei nodi yw mai awdl fuddugol Eisteddfod Aberpennar yng Nghwm Cynon oedd un o'r cerddi cywreiniaf a enillodd y Gadair erioed. Y gŵr ifanc a luniodd y fath gampwaith oedd Geraint Bowen gyda'i awdl foliant i'r Amaethwr. Ac yntau'n wrthwynebydd cydwybodol adeg y rhyfel, treuliodd ei gyfnod yn was fferm yn ardal Llanuwchllyn. Tra'n cyflawni holl oruchwylion llanc ifanc a chydnerth dechreuodd feistroli holl ddirgelion Cerdd Dafod a chynghanedd. Yn ei feirniadaeth ar lwyfan yr Ŵyl yn nhref lofaol Aberpennar dyfarnodd yr Athro Tomos Parry, yr awdurdod pennaf ar Feirdd yr Uchelwyr, fel a ganlyn;

"Y mae dyn yn dal ei wynt wrth ddarllen, a meddwl pa faint o synnwyr a fedr y campwr geiriol hwn ei roi yn y cymhlethdod mydryddol a ddewisodd. Y mae ganddo graffter teimladwy i weld cymhariaeth, a dawn i'w chyfleu mor gryno â Thudur Aled:

Dro ar ôl tro yn ymlid tres, - yn troi,
Yn trin, â'i feirch cynnes,
Ysgafndroed is y gefndres,
Y bydd, ar dywydd neu des.

Law a thes, clywch sŵn tresi! - daw'r aradr
Gyda'r hwyr o'r cwysi;
Gwêl linell ei hasgell hi,
A brain, lle'r oedd tinbrenni!

Mae ei ydau ym Medi - yn euraid
Ar warrau'r llechweddi;
Tonnau dŵr tan y deri,
Grawn llawn fel graean y lli.

Y mae rhyw wedduster hunanfeddiannol yng ngwaith y bardd hwn ar ei orau, a theimlir bod yma wir fardd yn llefaru, nid areithiwr na rhigymwr na chynganeddwr yn unig."

Dyma'r clod uchaf posib gan awdur y llyfr mwyaf safonol erioed ar Lenyddiaeth Gymraeg.

Bu llawer iawn o ganu Cerdd Dant ar y gadwyn o ddeg englyn yn y caniad cyntaf (megis y tri uchod) a chystadleuaeth glos yn yr Eisteddfod Ryng-golegol rhwng Prifysgolion Aberystwyth a Bangor.

Bardd Cadeiriol Caerffili am ei awdl foliant i'r Glöwr oedd Y Parch Gwilym Tilsley, gweinidog yn Aberdâr yng Nghwm Cynon. Cafodd ei awdl yntau hefyd groeso cynnes am ei bortread byw o'r glöwr fel yn yr englynion hyn:

Caner a rhodder iddo - glod dibrin
Y werin a'i caro;
Nydder y mawl a haeddo
I arwr glew erwau'r glo.

Erwau'r glo dan loriau'r glyn - yw ei le
Gyda'i lamp a'i erfyn;
I'w ddu gell ni ddaw dydd gwyn,
Ni ddaw haul yno i'w ddilyn.

Ymhlith y buddugwyr lleol ceir enw Miss Margaret Rosser o'r Efail Isaf a braint plant hŷn Ysgol Sul Eglwys y Tabernacl oedd cyflwyno drama fer (o'r Beibl) a enillodd yn Eisteddfod Aberpennar, ac yna drama i'r plant iau a enillodd yn Eisteddfod Caerffili.

Dymuniadau gorau a phob hwyl felly i bwyllgorau Eisteddfod Genedlaethol Rhondda, Cynon a Thaf yn eu trefniadau i sicrhau gŵyl arall gofiadwy.

D.Gareth Edwards
(Pontcanna)

Clwb Rygbi Pentyrch

Roedd dwy gêm gynta'r tymor yn y gynghrair yn achlysuron i gofio dau gyn-gadeirydd y clwb. Ar Sadwrn cynta Medi - gem a phrynhawn i gofio Gary Sam - dyn rygbi o'i gorun i'w sawdl. Daeth criw niferus ynghyd i gefnogi Beth a'r teulu - yn cynnwys nifer fawr o ffrindie ac aelodau'r ddau gôr yr oedd Gary'n perthyn iddyn nhw - Côr Hen Nodiant a Chôr Meibion Taf - a chafwyd tipyn o ganu yn y clwb wedi'r gêm wrth i ni gofio ffrind arbennig iawn i bawb.

Yna ar Sadwrn ola'r mis - diwrnod i gofio Bob Hannah - un a wnaeth gyfraniad cyfoethog i'r clwb - yn gymeriad unigryw a hynod o boblogaidd. Daeth ei wraig Jan, y plant Paul a Vicky a llu o gyfeillion ynghyd wrth i Jan wasgaru rhywfaint o'r llwch lle'r arferai Bob sefyll i weld y gêm ar y llinell hanner, ac yn y clwb wedyn cyflwynodd Dlws er cof am Bob i Seren y Gêm - a'r enillydd cyntaf oedd y cefnwr ifanc Tomi Booth a gyfrannodd 15 pwynt at y fuddugoliaeth wych - 30-14 dros Lanharan.

A bu'n fis prysur a phwysig bant o'r cae hefyd. Agorwyd y Lolfa ar ei newydd wedd, a diolch i Gareth Williams a Trish - rheolwr newydd y clwb am eu gwaith yn cynllunio a sicrhau grant barchus oddi wrth Undeb Rygbi Cymru fu'n help mawr i'r prosiect.

Cafwyd noson Cwis llwyddiannus iawn wedi ei threfnu gan y Llywydd a'r Is-lywyddion - y stafell dan ei sang ac Alun "Tuds" Jenkins yn gwis feistr gwych yn ôl ei arfer.

Dymuniadau gore hefyd i un o chwaraewyr ifanc y clwb - Jac Davies am sicrhau cytundeb dwy flynedd gyda rhanbarth y Scarlets. Mae e ishws wedi chware sawl gêm dros dîm y dre yn Llanelli.

Ac yn ola, roedd pawb yn y clwb yn falch iawn o dderbyn tlws gwerthfawr yn gynharach yn y mis - dyfarnwyr cylch Caerdydd a Rhanbarth y Dwyrain wedi pleidleisio dros Bentyrch fel y clwb gore, a mwya croesawgar yn y dalgylch. Diolch i bawb am eu hymdrechion, ac yn arbennig i Duncan Dawson sydd yn edrych ar ôl y dyfarnwyr ar ôl y gêm fel un o'i ddyletswydde niferus bob prynhawn Sadwrn. Cydnabyddiaeth i'n gwneud ni i gyd yn prowd iawn o Glwb Rygbi Pentyrch.

Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Croeso i'n hathrawon a'n disgyblion newydd
Hoffem estyn croeso cynnes i ddau athro sydd wedi ymuno â'r ysgol ym mis Medi. Mae Mr Rory Jones yn dysgu yn nosbarth Branwen ac mae Mr Steven Sandrey yn dysgu yn nosbarthiadau Tom Jones a Cerys Matthews.

Croeso hefyd i holl ddisgyblion Jac y Jwc a'u teuluoedd sy'n dechrau ar eu taith yma yn Ysgol Evan James. Mae pawb wedi ymgartrefu'n wych.

Clybiau di-ri
Rydym wedi dechrau cynnal ein clybiau yn barod ac mae nifer fawr o blant yn mynychu. Mae clybiau i blant o flwyddyn 1-6. Mae rhywbeth at ddant pawb, o arddio i ddawnsio i gemau bwrdd. Os hoffech weld pa glybiau a gynhelir, edrychwch ar ein gwefan.

Etholiadau Cynghorau
Yn ystod wythnos gyntaf y tymor, cynhaliwyd etholiadau ar gyfer ein holl gynghorau. Mae criw o ddisgyblion cyffrous iawn yn barod i gyfrannu a rhannu syniadau. Eleni mae gennym Gyngor Iechyd a Lles, Criw Cymreig,

Arweinwyr Digidol, Cyngor Eco, Arweinwyr Chwarae a Senedd. Yn ogystal, dewiswyd dau o ddisgyblion Blwyddyn 6 i fod yn Lysgenhadon Gwych. Edrychwn ymlaen at glywed am eich gwaith yn fuan.

Wythnos Cymreictod
Ym mis Medi, yn ôl ein harfer, dathlwyd ein Hwythnos Cymreictod. Dysgom fwy am hanes ein gwlad ac am Gymry ysbrydoledig. Mwynheuodd y disgyblion ddysgu caneuon newydd a'r uchafbwynt oedd croesawu Seren a Sbarc i'r ysgol ar ddiwedd yr wythnos pan wisgom ddillad lliwgar. Diolch i'r Criw Cymreig am drefnu wythnos wych.

Ffair Lyfrau
Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r ffair lyfrau eleni. Roedd dewis gwych o lyfrau gan y cwmni Scholastic ac roedd y ffair yn llawn darllenwyr brwd yn edrych am lyfrau newydd i'w darllen.

Cwrdd â'r athro
Mae mis Medi yn gyfle i rieni a gwarcheidwaid ddod i'r ysgol ac yn benodol i ddosbarth eu plentyn i ddysgu am waith y flwyddyn ac i gwrdd â'r athrawon a fydd yn dysgu eu plentyn. Cawsom nosweithiau llwyddiannus iawn unwaith eto eleni a braf iawn oedd cwrdd â phawb wyneb yn wyneb.

Sesiynau pêl-rwyd
Diolch i aelodau o garfan pêl-rwyd Rhydfelen am ddod i gynnal gweithdai gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 ym mis Medi. Mwynheuodd pawb y sesiynau yn fawr ac mae Mrs Lockett yn edrych ymlaen at groesawu rhai o'r garfan i helpu gyda'r clwb pêl-rwyd bob prynhawn Mawrth.

Cyhoeddi rhestr testunau Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd

Os fuoch chi draw i stondin Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn Nhregaron fis Awst, fe fyddwch chi'n gwybod mai ein beirniaid ar gyfer Eisteddfod 2023 yw Ifor ap Glyn ac Emyr Lewis (Barddoniaeth), Llio Maddocks a Glenys Roberts (Rhyddiaith), John Rea (Cerddoriaeth) a Huw Talfryn Walter (Ffotograffiaeth).

Gobeithio hefyd eich bod wedi cael golwg ar y rhestr testunau. Mae nhw hefyd bellach ar ein gwefan www.eisteddfodcaerdydd.cymru.

Dyddiad cau cystadlu yw dydd Gwener 2 Rhagfyr 2022. Byddwn ni hefyd yn cyhoeddi rhestr cystadlaethau llwyfan eisteddfod 2023 cyn hir.

Gallwn hefyd gadarnhau mai ddydd Sadwrn 21 Ionawr 2023 yn Ysgol Plasmawr fyddwn ni'n cynnal yr eisteddfod unwaith eto. Ry'n ni'n ddiolchgar iawn i'r ysgol am ei chefnogaeth.

Ry'n ni'n edrych ymlaen at eich croesawu chi yn ôl!

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Eluned Davies-Scott

Cydymdeimlad dwysaf i deulu Gwenllian Hâf Pugh

Ddechrau mis Medi, yn frawychus o ifanc, bu farw Gwenllian Pugh wedi salwch sydyn ac annisgwyl. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf â'i theulu wedi'r newyddion torcalonnus. Bydd nifer o deuluoedd a ffrindiau wedi eu tristáu yn fawr. Ers ei geni bu Gwenllian yn byw ym Meisgyn. Cafodd ei haddysg gynradd yn y pentref yn Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant, cyn symud i Ysgol Llanhari lle cwblhaodd ei harholiadau TGAU eleni. Ymhlith ei diddordebau roedd cerddoriaeth a llenyddiaeth ac roedd ar fin cychwyn cyfnod yn astudio'r pynciau yng ngholeg Gwyr.

Roedd Gwenllian yn rhan o gymdeithas glos yn ardal Meisgyn a'r cyffiniau, a bydd nifer yn ei chofio mewn gwahanol ddigwyddiadau ar hyd y blynyddoedd. Roedd ganddi lu o ffrindiau fydd yn ei chofio am ei synnwyr digrifwch unigryw. Roedd ganddi'r gallu i godi gwen ar unrhyw achlysur. Mae ei ffrindiau yn trysori ei chyfeillgarwch a'i hanogaeth a'n cofio gyda balchder ei hoffter o ganu'r piano, gemau fideo a phengwiniaid! Bydd colled enfawr ar ei hôl.

Chwaraewyr Rygbi disglair

Llongyfarchiadau i Alffie Prygodzicz, Alffie Beazer a Gethin Jenkins ar gael eu dewis i garfan rygbi ieuenctid ardal Pontypridd y tymor hwn. Mae'r tri yn byw yn yr ardal ac yn chwarae dros glwb rygbi Llantrisant. Pob lwc dros y tymor.

Helfa Bargen Merched Y Wawr

Her ar gyfer aelodau cangen Tonysguboriau a'r ardal oedd dod o hyd i fargen gwerth £5 neu lai a'i gyflwyno yn ein cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd. Daeth llond bwrdd o eitemau diddorol gan gynnwys siaced llawn secwinau, nifer o lestri Tsiena a gefel siwgr. Jên Dafis, Swyddog Datblygu'r Rhanbarth, oedd y beirniad a phenderfynodd mai'r llwyau bwrdd a gyflwynwyd gan Beryl Rowley oedd y fargen ore. Balch deallt for Beryl wedi cael gafael yn y rhain yn y siop.

Yn ystod y cyfarfod penodwyd swyddogion newydd ac fe gadarnhawyd ein rhaglen am y flwyddyn sy'n dod. Dathlu diwrnod Shwmae/Su'mae gyda Helen Prosser fyddwn ar Hydref 19eg am 7.00 yn Café 50, Pontyclun. Croeso i aelodau newydd; gallwch gael mwy o fanylion gan Eluned Davies-Scott (mailscott@btinternet.com)

Croeso i'r ardal

Ar ôl byw yn Sili ger Penarth am bron 45 mlynedd mae Betsan a Howard Evans wedi symud i ystâd Lanley ger Tonysguboriau. Mae'r ddau yn wynebau cyfarwydd i lawer ohonom gan iddynt fod yn aelodau o Gôr Godre'r Garth ac yn ddawnswyr gyda Chwmni Dawns Werin Caerdydd am gyfnod hir. Mae ganddynt ddwy ferch yn byw yn yr ardal, Hannah ym Meisgyn a Ruth yn Llanhari.

Grŵp Codi Arian Macmillan

Eleni eto cafwyd y cyfle i fynd i ardd arbennig Don Knight yn Llanilltud Fawr ar Awst 8fed. Mae'r ardd ar agor i'r cyhoedd trwy'r Cynllun Gerdd Agored Genedlaethol i godi arian i elusennau sy'n cynnwys Macmillan. Paratowyd te a chacennau a chodwyd £476. Edrychwch allan am y digwyddiad nesa sef Te Prynhawn Mawr Macmillan fydd yn cael ei gynnal ar Hydref 21ain.

Digwyddiadau Neuadd y Guild Llantrisant

Mae'n werth edrych ar dudalen Facebook y neuadd gan fod amrywiaeth o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yno yn ystod y misoedd nesaf. Ar 6ed o Hydref fe fydd Gareth Thomas yn trafod pam ddylen ni gofio Tryweryn a dathliad o ben-blwydd Dylan Thomas ar 27ain Hydref gydag Alun Gibbard ac eraill. Fe fydd hefyd gweithgareddau i blant ar ddydd Calan Gaeaf, 29ain o Hydref.

Da iawn Hari

Cafodd, Hari, ŵyr Wayne a Jane Griffiths, brofiadau arbennig yn ddiweddar. Aeth gyda llysgenhadon ifanc eraill Canolfan Canser Felindre i blannu blodau a pherlysiau yng ngardd y ganolfan. Fe fydd staff, cleifion a'u teuluoedd yn sicr yn elwa o'r ychwanegiad hyfryd yma i'r cyfleusterau ar y safle.

Dim bysedd gwyrdd yn unig sydd gan Hari ychwaith, bu hefyd yn chwarae ei gitâr yn ystod sesiwn Ysgol Roc yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llantrisant.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

Parc Sglefrio i Donyrefail

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Danny Grehan a'r criw bach ond gweithgar sy wedi cyflwyno cais llwyddiannus i'r Loteri ar gyfer arian i gael Parc Sglefrio a champfa tu allan ym Mharc Tŷ'n y Bryn. Dyma fodel o'r Parc Sglefrio:

Cymorth Cristongol

Llongyfarchiadau i aelodau Eglwys Dewi Sant Tonyrefail am drefnu Brecwast Mawr llwyddiannus i godi arian i Gymorth Cristnogol ddydd Sul, Medi 4ydd.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimladau diffuant i Nia Downes, Pennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail a gollodd ei thad yng nghanol mis Medi.

Hippy Chippy

Os dych chi awydd ychydig o bysgod a sglodion, ewch am dro i'r Hippy Chippy yn y Gilfach Goch. Cewch sgwrs yn y Gymraeg a gwên hyfryd gan Karen Clements sy'n rhedeg y siop sglodion.

Golff

Llongyfarchiadau i Geraint Llewelyn Barnes ar ennill y wobr gyntaf yn rownd derfynol cystadleuaeth golff Taith Ping Cymru i rai o dan 14 oed yng nghlwb golff Parc Tredegar. Dyma oedd diwedd taith 2022 gyda'r goreuon a gystadlodd mewn cystadlaethau golff ar draws Cymru yn cael y cyfle i gystadlu yn y rownd derfynol.

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):
Mis Hydref 2022:
2 Hydref – Oedfa Diolchgarwch yr Ysgol Sul (Heulwen a'r plant)
9 Hydref – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
16 Hydref – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths
23 Hydref - Oedfa dan ofal y Parchedig R. Alun Evans
30 Hydref – Oedfa Sul Adferiad dan arweiniad Wynford Ellis Owen
Mis Tachwedd 2022:
6 Tachwedd - Oedfa dan ofal Delwyn Siôn / Recordio Caniadaeth y Cysegr
13 Tachwedd – Oedfa dan ofal y Parchedig Jeff Williams
20 Tachwedd – Oedfa Sul yr Urdd
27 Tachwedd – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel

---oooOOOooo---

Rydw i wrthi o hyd yn pori yn y llenyddiaeth a'r farddoniaeth a gyhoeddwyd fel rhan o gynhaeaf yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Nhregaron eleni.

Wrth basio nodaf nad oedd ardal yr Eisteddfod yn ddieithr i mi gan i mi dreulio gryn ddwsin o flynyddoedd yn gweithio i Gyngor Sir Dyfed a Chyngor Sir Ceredigion, yn ymwneud a phriffyrdd a thrafnidiaeth y cylch.

A blynyddoedd dedwydd oeddent hefyd, gan brofi cynhesrwydd trigolion yr ardal yn ogystal â'r rhai a'u cynrychiolai ar y gwahanol gynghorau a'r cyrff gweithredol eraill yn ymwneud a'r maes.

Ond yn ôl at waddol ysgrifenedig yr Eisteddfod, a'r gyfrol "Rhyngom", a enillodd i Sioned Erin Hughes y Fedal Ryddiaith.

Fe ddaliodd un paragraff penodol fy sylw wrth ddarllen un o'r storiâu sydd yn y gyfrol - dan y pennawd "Haul llwynog" - ac mae'n ddiddorol i'r un a fu'n trafod "Llên" yr Ŵyl yn rhifyn mis Medi o "Barn" hefyd ddyfynnu'r un paragraff, gan nodi "*ysgrifennu cynnil a synhwyrus*" yr awdur ynddo:-

"*Y dail wedi blino ar eu gwyrddni eu hunain. Gwaedu'n goch a chlwyfo'n felyn a phydru'n frown. 'Roedd y sŵn crensian pleserus dan draed wedi ei golli i law didrugaredd neithiwr, gan adael rhyfeddod yr hydref i lynu'n un llanast gwlyb wrth fy sgidiau.*"

A welwyd disgrifiad mwy godidog na hwn o dymor yr hydref yn unrhyw fan - yn sicr byddaf i yn edrych ymlaen at brofi'r wefr a ddisgrifiwyd gan yr awdur wrth i'r tymor hwnnw brysuro tua'r gaeaf.

[Fe wyddoch bellach fy hoffter o olrhain crebwyll rhyw air neu ddywediad i lyfrau'r Beibl, a syndod o'r mwyaf oedd darganfod mai dim ond pum enghraifft o'r defnydd o'r "hydref" sydd yn fersiwn Beibl.net.

Ceir tri yn yr Hen Destament, i gyd yng nghyswllt cael glaw ar yr adeg iawn er budd y cnydau, unwaith yn yr un modd yn y Testament Newydd, a'r un arall yn llyfr yr Actau yn cyfeirio at "*ddechrau hydref*" a'r llongddrylliad pan oedd Paul yn hwylio i Rufain.]

(Mae'r tymhorau eraill yn cael mymryn mwy o sylw – y gwanwyn yn benodol oherwydd mai dyna'r "*adeg pan fyddai brenhinoedd yn arfer mynd i ryfela!*")

Cyfrol arall a lansiwyd yn swyddogol yn yr Eisteddfod oedd "*Malwan bach fel fi…" yn cloddio am aur,* a olygwyd gan Prydwen Elfed-Owens [Gwasg Carreg Gwalch - Pris £10]. Ei bwriad trwy'r casgliad o 60 o gyfraniadau sydd yn y gyfrol oedd "*dysgu mwy am yr hyn sydd yn digwydd yn enw Crist yng Nghymru heddiw.*"[gweler adolygiad John Roberts yn yr Adran Gydenwadol yn "Y Tyst" Rhifyn 8 Medi 2022]

Fe nodir ar y clawr cefn fel a ganlyn:-
"*Mae'r 60 cyfweliad sy'n ffurfio craidd y gyfrol hon yn cynnwys esiamplau o batrymau a dulliau gweithredu y gellid eu hefelychu, eu haddasu a'u datblygu. Yn ogystal, ceir yma ddadansoddiad gan yr awdur sy'n cynnig syniadau, ystyriaethau a meini prawf y gall eglwysi fesur eu pererindodau eu hunain yn eu herbyn.*"

Fe rydd cip cyflym ar dudalen "Cynnwys" y gyfrol awgrym bod nifer o ddalgylch Tafod Elái wedi cyfrannu at y cyfanwaith:-
Rhan 1:- Bugeilio ymarferol – tosturi ar y rheng flaen (Adfer - Wynford Ellis Owen)
Rhan 2: Tanio'r Fflam - cenhadu i ddenu'r ifainc a'r gymuned leol (Achos â statws elusennol - Eleri Mair Thomas, Swyddog Ieuenctid a chymunedol Capel y Tabernacl, Efail Isaf)
Rhan 3: Cenhadu Cyfoes – cyfathrebu technolegol, rhithwir a digidol (Cyswllt dydd i ddydd – Bethlehem, Gwaelod-y-garth)
Rhan 4: Arweiniad Goleuedig – bwrlwm byw (Achosion a statws elusennol – Bwrdd Cyfarwyddwyr, Capel y Tabernacl, Efail Isaf)
Rhan 5: Rheoli Grymusol – gweledigaeth eang, gynhwysol (Cytûn – Prif Weithredwr: Parchedig Ganon Aled Edwards)
[Mae nifer o ddalgylch papur bro "Y Dinesydd", hefyd wedi cyfrannu.]

Os cyplyswn gynnwys y gyfrol uchod, a thymor yr hydref a'r gaeaf sydd ar ein gwarthaf, pa feini prawf y byddwn ni fel



aelodau Bethlehem, Gwaelod-y-garth, a chwithau ddarllenwyr brwd Tafod Elái am eu cymeradwyo a'u harfer tybed?

A fydd ein cefnogaeth i elusennau a'n rhoddion i'r banc bwyd yn parhau?

A fydd ein dyhead i groesawu ffoaduriaid i'n mysg a chynnig lloches iddynt yr un mor frwd?

A fydd ymestyn ein gofal a'n hymwneud a'n cymdogion, a amlygwyd yn ystod y cyfnod clo, yn flaenoriaeth?

Yn ei araith agoriadol ar yr 20 o Fedi i Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, bu'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Antonio Guterres, yn llym ei dafod ar y cwmnïau barus rheini sy'n manteisio ar gymorthdaliadau ar yr un llaw, a ffawdelw (*windfall*) ar y llaw arall, tra bod y "*blaned ar dân*", a "*chostau byw yn carlamu'n ddidostur o'n gafael*".

"*Mae yna erydu ar y momentwm gwleidyddol o blaid newid hinsawdd, mewn byd sydd wedi ei gymhlethu gan y rhyfel yn Wcráin, chwyddiant, a'r argyfyngau ynni, bwyd a dyledion.*"

Yn ddi-os, mae gennym hefyd amheuon am rai o'r penderfyniadau gwleidyddol diweddar a wnaed ar ein rhan gan y rhai sydd mewn grym.

At bwy tybed y cyfeiriodd Archesgob Caergaint ei ergyd mewn cymal o'i bregeth yn angladd y Frenhines ym mis Medi pan awgrymodd fod "*pobl o wir wasanaeth yn brin mewn unrhyw ran o'n cymdeithas. Mae arweinwyr gwir wasanaeth hyd yn oed yn brinnach. Ond ym mhob achos, caiff y rhai sy'n gwasanaethu eu caru a'u cofio, tra bod y rhai sy'n mynnu grym a breintiau yn cael eu hanghofio.*"

Beth bynnag eich barn a'ch safbwynt, gochelwn rhag gadael i'r "*hydref hwn i lynu'n un llanast gwlyb wrth ein sgidiau ni!*

RhGJ

Colofn Blasus ac Iachus

Eluned Davies-Scott

Elfen flasus, gludiog i ryseitiau melys a sawrus

Er na aeth fy ngwyliau diweddar i Ganada â mi i'r dalaith sy'n tyfu'r coed masarn enwog nid oedd angen teithio'n bell cyn gweld surop masarn yn cael ei werthu mewn siopau wedi'i becynnu'n arbennig i ddenu ymwelwyr. Roedd hefyd ar gael mewn jygiau i gyd-fynd ag amrywiaeth o fwydydd ac wedi ei ychwanegu i amrywiaeth o eitemau bwyd.

Talaith Québec sydd â'r amodau perffaith ar gyfer cynaeafu'r sudd a ddefnyddir i gynhyrchu surop masarn pur. Mwynhawyd surop masarn gan frodorion y wlad ymhell cyn iddo gael ei 'ddarganfod' gan Ewropeaid yn y 16eg ganrif pan dorrodd Jacques Cartier a'i gyd-archwilwyr yr hyn yr oeddent yn ei feddwl oedd yn goeden cnau Ffrengig a dod o hyd i sudd blasus melys yn llifo allan ohoni. Yn ôl chwedl ganrifoedd cyn hyn, yn ystod cyfnod o brinder bwyd, sylwodd aelodau o lwyth brodorol ar wiwer yn yfed "dŵr" o goeden masarn a sylweddoli mai dyna oedd ffynhonnell ei bywiogrwydd. O hynny allan dechreuwyd yfed sudd masarn fel diod gyfnerthol.

Erbyn y ddeunawfed ganrif roedd surop masarn yn cael ei gynaeafu ar raddfa ddiwydiannol a'i allforio i gyfoethogion ledled y byd. Byddai'r cynhyrchwyr yn gwneud toriad bach yn y goeden masarn gyda bwyell ac yna'n casglu'r sudd. Y dull gwreiddiol o brosesu'r sudd oedd ei gynhesu â cherrig poeth i anweddu rhywfaint o'r dŵr; dull arall oedd gadael y sudd i rewi, byddai'r twr yn troi yn rhew pur gan adael dwysfwyd siwgr.

Er bod dulliau cynaeafu a phrosesu wedi datblygu, mae'r un broses sylfaenol yn parhau. Cesglir masarn yn y gwanwyn pan fydd nosweithiau oer a dyddiau mwyn yn achosi i'r sudd rewi a dadmer, gyda thymheredd cyfnewidiol yn gwthio'r sudd allan tuag at foncyff y goeden. Unwaith bydd yr amodau hyn wedi'u bodloni, gellir 'tapio' coed masarn i echdynnu'r sudd; ond nid ydyn nhw'n hongian bwcedi o dan sbigot bellach. Y dyddiau hyn, rhwydwaith o bibellau plastig glas sy'n casglu'r sudd i mewn i danciau mawr. Wedyn mae'n cael ei gludo i gynwysyddion mwy lle caiff ei ferwi a'i wneud yn surop.

Mae'r coed yn cynhyrchu surop masarn bron am gyfnod amhenodol a gall coed da gynhyrchu sudd am dros 100 mlynedd. Mae'r coed yn Québec yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith ac yn cyflenwi tua 72% o surop masarn y byd. Wedi'i sefydlu ym 1966 mae The Québec Maple Syrup Producers (QMSP) yn cynrychioli cynhyrchwyr ac yn gweithio i reoleiddio prisiau ac ansawdd, i sicrhau masnach deg, a hyrwyddo cynhyrchion masarn ar lwyfan rhyngwladol.

Daw surop masarn mewn pedair arddull a lliw gwahanol, pob un â'i nodweddion a'i flas ei hun - Euraidd, blas cain; Ambr, blas cyfoethog; Tywyll a Tywyll iawn gyda blasau cryf. Gan fod cynnyrch isel (mae angen 40 galwyn o sudd i wneud un galwyn o surop) ynghyd â'r broses gynhyrchu yn parhau i ddylanwadu ar y pris, sef tua £15 y litr, mae efelychiadau i'r surop dilys ar gael sydd wedi eu gwneud o surop corn rhad gyda chyfran fach o surop masarn.

Mae gan y surop awgrymiadau o flasau cnau, fanila a sbeis ac mae ei felyster yn ei wneud yn gynhwysyn gwych ar gyfer gwydredd, rhwbiai neu sawsiau barbeciw i ddofednod, cigoedd, bwyd môr a llysiau. Mae hefyd yn ychwanegu melyster at amrywiaeth o fwydydd fel ffrwythau ffres, grawnfwyd, hufen iâ a smwddis.

Mae'n aml yn cael ei baru â chynhwysyn arall o Ogledd America - pecans, er mantais i'r ddwy ochr. Tarten triog yw tarten surop masarn yn y bôn gyda rhywfaint o gnau pecan ynddi, ac ychydig o surop masarn wedi'i ychwanegu at y surop aur. Mae'r cogydd Liam Charles yn ychwanegu gellyg a surop masarn at ei bastai pecan clasurol. Gellir gwneud pecans 'candi' â surop masarn ac mae Angela Kim's yn eu torri a'u gweini ochr yn ochr â'i phwdin llaeth enwyn.

Mae rysetiau cacennau hefyd fel cacen pannas a surop masarn ar wefan BBC Good Food ac un gan Thomasina Miers am dorth masarn, ceirch, banana gydag ychydig o afal ac un foronen fach. Mae cacennau creision gyda masarn a chnau coco Tom Hunt yn ffordd wych o ddefnyddio grawnfwyd brecwast sydd wedi mynd heibio ei orau ac mae bisgedi masarn a chnau cyll Nigel Slater yn ddanteithion amser te soffistigedig.

Nid yw defnydd surop masarn wedi'i gyfyngu i bwdinau. Mae Yotam Ottolenghi yn ei ychwanegu at ddresin salad, yn benodol ei vinaigrette masarn a lemwn. Mae hefyd yn ymddangos yn ei rysáit ar gyfer salad hwyaid ac mewn dresin i gyd-fynd â bron hwyaden rost. Mae defnyddiau eraill yn cynnwys marinâd ar gyfer planhigyn wy ac fel gwydredd ar gyfer parseli eog. Dwi'n hoff iawn o rysáit Thomasina Myers sy'n defnyddio surop masarn gyda tsili habanero, garlleg a leim i wneud marinâd ar gyfer golwythion neu asennau o borc; mae'n cael ei weini gyda 'relish' wedi ei wneud gyda phinafal.

Y cyfuniad clasurol yw surop masarn a chig moch; mae'r ddau wedi rhannu platiau brecwast ers blynyddoedd gyda rhai datblygiadau diddorol yn ddiweddar, fel y fynsen brioche, sgons a Bara Corn (Good Food) sy'n defnyddio'r ddau.

Ar daith gerdded ddiddorol o amgylch Vancouver tynnwyd ein sylw gan ein tywysydd at batisserie bach eitha di-nod ger llyfrgell y ddinas. Y diwrnod canlynol buom yn ciwio'n amyneddgar y tu allan i'r sefydliad poblogaidd hwn am dros hanner awr cyn i ni allu blasu eu wafflau. Ni wastraffwyd amser gan fod y wafflau gyda surop masarn, cig moch crensiog ac wyau wedi'u potsio yn bleser pur ac yn ddechreuad rhagorol i'r diwrnod olaf o'n gwyliau.

Ysgol Llanhari

Dathlu canlyniadau Safon Uwch rhagorol blwyddyn 13

Ar ôl cyfnod heriol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, hyfryd fu dathlu canlyniadau rhagorol disgyblion blwyddyn 13 eleni. Roeddem wrth ein bodd bod 92% o'r disgyblion wedi ennill o leiaf 3 gradd A*-C a bod canran anhygoel sef 42% o'r disgyblion wedi ennill o leiaf 3 gradd A*-A. Dyma'r ganran uchaf ers sawl blwyddyn! Pleser fu dysgu'r criw yma ar hyd eu cyfnod yn yr ysgol a braf gweld bod pob un ohonynt wedi llwyddo i ennill o leiaf tair gradd rhwng A*-E yn eu pynciau academaidd amrywiol. Dathlwn lwyddiant yr holl ddisgyblion sydd wedi gweithio yn ddygn a chydwybodol trwy gydol eu hamser yn Llanhari. Llongyfarchiadau i'r holl athrawon a disgyblion a dymunwn yn dda i'r bobl ifanc sydd erbyn hyn wedi cychwyn ar fyd gwaith neu yn parhau â'u hastudiaethau mewn prifysgolion neu golegau ymhob cwr o'r wlad.

Canlyniadau TGAU rhagorol yn dilyn ein llwydddiant Safon Uwch

Bu'n rhaid dathlu eto wythnos yn ddiweddarach! Cyhoeddwyd canlyniadau TGAU rhagorol disgyblion blwyddyn

11, wythnos wedi inni ddathlu canlyniadau ardderchog disgyblion blwyddyn 13. Penllanw dwy flynedd o lafur caled a dyfalbarhad gan ddisgyblion a staff ynghanol a thu hwnt i'r pandemig fu'r canlyniadau TGAU yma. Dyma ganlyniadau gorau erioed yr ysgol gyda 33% o'r disgyblion yn llwyddo i ennill o leiaf 5 gradd A*-A a phob un o'r disgyblion ar draws yr ystod gallu yn cyrraedd eu potensial. Mae'r canlyniadau ardderchog yma, fel y canlyniadau Safon Uwch yn adeiladu ar sylfaen a osodwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac yn amlygu cryfder dysgu ac addysgu ar draws adrannau'r ysgol. Caiff y disgyblion i gyd eu cynnal a'u herio'n academaidd i wneud eu gorau glas. Prin oedd yr wynebau siomedig wrth inni fel ysgol ddathlu blwyddyn arall o ganlyniadau ardderchog lle amlygodd y disgyblion ymroddiad arbennig i'w hastudiaethau a lle gwelwyd bod adnabyddiaeth staff ohonynt fel unigolion yn arwain at lwyddiant aruthrol.

Dathlwn fel staff a rhieni bod y disgyblion wedi gwireddu eu potensial ac rydym wedi bod yn gyffrous i'w croesawu nôl fel aelodau o'n chweched dosbarth ym mis Medi o dan arweiniad ein Harweinydd Chweched newydd Miss Beca Creamer.

Menter Caerdydd

Hwyl yr Hydref

Gyda thocynnau ar gyfer gig Bwncath wedi gwerthu mewn chwinciad, peidiwch â cholli cyfle i fwynhau noson Nadoligaidd yng nghwmni Brigyn! Dim ond 30 o docynnau sydd ar gael ar gyfer y noson yng Nghaffi a Deli Foxy's, Penarth, nos Iau, 8 Rhagfyr, felly peidiwch ag oedi cyn prynu eich tocyn.

Cyn hynny wrth gwrs mae hanner tymor. Cadwch lygad ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol am fanylion llawn ein cynllun **Gofal** ar gyfer plant dosbarth derbyn i flwyddyn 6. Bydd ein sesiynau chwarae rhad ac am ddim, **Bwrlwm**!, hefyd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas Caerdydd a Bro Morgannwg.

Bydd y plant wrth eu boddau yng Nghanolfan Antur Ninja Warrior a'r gwersi marchogaeth yn Liege Manor, heb sôn am y gweithdy 'Gweld Gwyddoniaeth' yn Ysgol Pencae ar 2 Tachwedd. I'r rhai sydd â diddordeb mewn cynllunio a chreu, cynhelir Clwb Ffasiwn i blant 9-13 oed ar ddydd Iau, 3 Tachwedd.

Yn ogystal â'r gweithgareddau gwyliau, bydd y Gweithdy Coginio Calan Gaeaf gyda Cookstars yn Neuadd St Peter's, Tyllgoed ar 22 Hydref yn siŵr o fod yn boblogaidd. Neu beth am roi tro ar ein dau glwb newydd, rhad ac am ddim, ar gyfer plant 7-11 oed? Mae'r Clwb Cerdd yn cwrdd yn Festri Capel Salem bob prynhawn Mawrth yng nghwmni Mei Gwynedd a'r Clwb Ffitrwydd yn hyfforddi dan ofal Elin Wyn Williams yng Nghanolfan Gôl bob prynhawn Mercher.

Mae'r Clybiau Dawns a Drama hefyd yn ail-ddechrau ar foreau Sadwrn a chofiwch fod y Clwb Ffasiwn i bobl ifainc 14-18 oed yn dychwelyd ar 6 Hydref gyda mwy o syniadau crefftus.

I'r oedolion, bydd cwrs Tai Chi, 10 wythnos o hyd, yn cael ei lansio yn Hyb Rhydypennau brynhawn Llun, 17 Hydref. Gallwch gofrestru o flaen llaw am £30 neu dalu £4 wrth y drws fesul dosbarth.

Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gofrestru ar gyfer y cwrs diweddaraf yn y gyfres Hanes Cymru, **Cartrefi'r Werin: Adeiladau Traddodiadol Cymru** yng nghwmni Dr Eurwyn Wiliam ar Zoom (3, 10, 17 Hydref). Os ydych wedi colli'r sesiwn gyntaf, na phoener, mae recordiad ar gael i'r rhai sy'n ymuno'n hwyr!

Nodi 40 mlynedd o S4C byddwn ni yn **Sgwrs y Mis** nos Lun, 24 Hydref pan fydd Dr Elain Price yn bwrw golwg yn ôl ar **S4C a'i Phartneriaethau Allweddol (1981-1985)**.

Cofiwch hefyd am ein sesiynau i'r rhai bach – Deffro'r Synhwyrau ac Amser Stori. Dewch chi o hyd i wybodaeth ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd.
E-bost post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888

Ysgol Garth Olwg

Dinomania
Y mis hwn bu'r Ysgol Isaf yn hynod o lwcus i gael ymweliad arbennig iawn gan gwmni Dinomania fel sbardun i'n thema ar ddinosoriaid y tymor hwn.

Roedd y disgyblion wrth eu boddau ac wedi dysgu nifer o ffeithiau diddorol amdanynt yn ogystal â chael llawer o hwyl. Diolch yn fawr Dinomania

Croeso i'r Meithrin
Erbyn hyn mae plant y Dosbarth Meithrin i gyd wedi ymgartrefu yma gyda ni yn yr Ysgol Isaf. Rydym i gyd yn falch iawn o gael eich croesawu yma i fod yn rhan o deulu Garth Olwg.

Ioga Pili Pala
Yr wythnos diwethaf ac am weddill y tymor mae disgyblion y Dosbarth Derbyn yn ffodus iawn i gael cymryd rhan mewn gweithdy ioga i blant bach. Mwynheuodd y plant y wers yn fawr iawn.

Taith Llangrannog
Roedd cyffro mawr ar ddydd Mercher yr 21ain o Fedi wrth i ddisgyblion blwyddyn 7 deithio i wersyll yr Urdd yn Llangrannog. Roedd y cyffro yn fwy na'r arfer gan mai dyma'r tro cyntaf i'r ysgol fynd i Langrannog ers 2019! Dyma'r tro cyntaf hefyd i lawer o'r disgyblion fynd i ffwrdd ar wyliau heb deulu.

Cafodd y disgyblion modd i fyw yn gwneud y gweithgareddau. Roedd y bag neidio yn boblogaidd iawn gyda'r disgyblion yn mwynhau neidio oddi ar y platfform uchel a glanio ar y bag aer. Roedd hefyd angen llawer o ddewrder i wneud y weiren zip – roedd y disgyblion yn wên o glust i glust wrth iddyn nhw wibio trwy'r awyr.

Roedd ychydig o law ar yr ail ddiwrnod felly roedd pawb yn mwynhau gwneud y gweithgareddau dan do. Roedd y cwrs rhaffau uchel wedi diddanu pawb ac roedd rhai disgyblion wedi dyfalbarhau ac wedi llwyddo er gwaethaf eu hofn uchder– da iawn chi! Roedd mynd i'r pwll nofio cynnes yn y tywydd oer hefyd yn braf.

Gyda'r hwyr, roedd gweithgareddau'r nos yn gyfle i'r disgyblion wneud pethau gwahanol. Ar y noson gyntaf, cerddon nhw dros y mynydd a draw i draeth Llangrannog. Yna, cawson nhw fodd i fyw wrth gwblhau gweithgareddau chwaraeon gyda'r swogs cyn gwneud bach o ddawnsio gwerin yn y twmpath. Ar yr ail noson, roedd nifer o ddisgyblion wedi mwynhau dawnsio yn y disgo tra bod rhai eraill wedi mwynhau gwylio gêm pêl-droed Cymru a Gwlad Belg - roedd hi'n gêm gyffrous!

Roedd y bwyd hefyd yn uchafbwynt gyda llawer o brydau bendigedig megis lasagne, *goujons* cyw iâr, pasta ac, wrth gwrs, sglodion! Neis hefyd oedd cael sgwash a chreision cyn mynd i'r gwely.

Erbyn cyrraedd yn ôl i'r ysgol ar brynhawn Gwener roedd pawb wedi blino'n lân ond wedi cael amser arbennig o dda yn y gwersyll ger y lli. Mae diolch mawr yn mynd i'r athrawon a'r swogs am ofalu am y disgyblion a hefyd wrth gwrs i Mrs Llwyd, Mrs Bradberry, Miss Jones a Miss Hart am drefnu.

Taith i Bontypridd
Aeth yr adran Ddyniaethau a Chymraeg â Blwyddyn 7 ar daith i Bontypridd yn dilyn y Llwybr Treftadaeth er mwyn dysgu am eu hardal leol. Cafwyd hwyl yn cwblhau helfa drysor a chwarae ym Mharc Ynys Angharad.



Ysgol Creigiau

Seiclo i ddisgyblion Blwyddyn 6
Yn ddiweddar mae disgyblion Dosbarth 6 a Class 6 wedi derbyn gwersi seiclo gan swyddogion diogelwch y ffordd Cyngor Caerdydd. Maent wedi dysgu rheolau'r ffordd fawr a sut i ofalu am eu beiciau. Mwynheuon nhw'r profiad yn fawr.

Dosbarth 6 yn mwynhau gwersi seiclo

Class 6 yn mwynhau eu gwersi seiclo

Gweithdy 'Pan oedd Glo yn Frenin'
Mwynheuodd Dosbarth 6 a Class 6 weithdy ar-lein o'r enw 'Pan oedd glo yn frenin'. Cafodd y disgyblion lawer o wybodaeth gefndirol er mwyn eu hysbrydoli ar gyfer eu hymchwiliad y tymor hwn, Cynefin - 'Trasiedi fwyaf Glo Cymru: a gollodd plant eu plentyndod?'

Ymweliad Adam Colman
Yn ystod ail wythnos y tymor newydd daeth Adam Colman, Menter Ysgolion Cymraeg, i'r ysgol i gyflwyno gwasanaeth i ddisgyblion yr Adran Gymraeg. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar ei straeon. Diolch Mr Colman.

Ysgol Dolau

Croesawu
Mae pawb wedi setlo nôl a chroesawn plant bach newydd i'r Feithrin a Nursery. Croeso mawr i Ysgol Dolau!

Ffarwelio â'r Gofalwr
Rydyn ni wedi ffarwelio â'n gofalwr hirsefydlog Mr Andy Waters sydd wedi ymddeol ar ôl 15 mlynedd. Colled enfawr ond croesawn Mr Neale Young ein gofalwr newydd.

Cofio Roald Dahl
Rydyn ni wedi bod yn cofio am ac yn dathlu Roald Dahl. Dyma Dosbarth 2 yn dysgu am Y Crocodeil Anferthol .



Cofio Owain Glyndŵr
Rydyn ni wedi bod yn cofio ac yn dathlu Owain Glyndŵr. Dyma waith Dosbarth 7 wrth ei gofio.


16.09.2022
Bwriad: i drefnu pelleroedd yn gywir.

Defnyddiwch y we i ddarganfod y pellter rhwng y mannau pwysig isod ym mywyd Owain Glyndŵr ag Ysgol Dolau. Fe fydd angen newid y pelleroedd o filltiroedd i fetrau.

Y daith	Pellter mewn metrau	Trefn
Ysgol Dolau i gastell Coety	9495.13	1
Ysgol Dolau i gastell Harlech	239470.39	5
Ysgol Dolau i gastell Glyndyfrwy	253793.55	6
Ysgol Dolau i Blynlimon (Plynlimon)	172,843.55	3
Ysgol Dolau i Sycharth	230,940.86	4
Ysgol Dolau i gastell Aberystwyth	158,359.4	2

Marciwch eich atebion gyda phen coch.

Llwyddiant Rygbi

Mae Freya, Dosbarth 6, wedi ei dewis ar gyfer carfan dan 11 Rygbi Ysgolion Caerdydd. Roedd dros 190 o blant yn treialu ac yn brwydro am le. Bydd hi nawr yn cael y cyfle i chwarae ledled Cymru, Lloegr a De Iwerddon, yn gwisgo crys Glas a Du Caerdydd. Mae'n anrhydedd enfawr gan mai dim ond 30 o blant sy'n cael y cyfle bob blwyddyn. Da iawn Freya - rydyn ni'n hynod falch ohonot.

Llwyddiant Pêl-droed

Mae Wil, Dosbarth 6, wedi cael ei ddewis i chwarae pêl-droed i garfan dan 11 Caerdydd a'r Fro. Mae'n anrhydedd enfawr - gwych Wil. Rydym yn hynod falch ohonot.

Rygbi
Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn canlynol sydd wedi cael eu dewis i garfan dan 11 Ysgolion Pontypridd. Camp fawr. Da iawn bechgyn! Ellis Lloyd Roberts, Callum Wingfield, Oliver Ennis, James Thomas Price a Charlie Robinson.

CERDDORIAETH BYW
BWNCATH
GYDA MABLI TUDUR YN CEFNOGI
NOS WENER
30/09/22
Tocyn £10
I archebu lle ewch i:
bookwhen.com/gartholwg
Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc
Heol Saint Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ
01443 570075

Cranogwen
Pregethwr
Ysgolfeistres
Ymgyrchydd
Darlithydd
Ffrind
Morwres
Golygydd
Bardd
6.10.22 ~ 7.30yh
Tocynnau £12 / Gostyngiadau £8
Addas i oedran 14+
I archebu lle ewch i:
www.bookwhen.com/gartholwg
Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc
Heol Saint Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ
01443 570075

TRAED MAWR
Clwb rhieni a phlant rhwng 18 a 36 mis oed
Dewch i gymdeithasu a siarad Cymraeg drwy chwarae, stori a chân
I gofrestru ewch i
https://bookwhen.com/courses-garth-olwg
BOB DYDD MERCHER
14.09.22
AM 14 WYTHNOS
1.30-3.00yp
£28.00
Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc
St Illtyd Rd, Church Village, CF38 1RQ
01443 570075

CERDDORIAETH BYW
AL LEWIS
25/11/22
NOS WENER 7.30
Tocyn £15
I archebu lle ewch i:
bookwhen.com/gartholwg
Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc
Ffordd Saint Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ
01443 570075